Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe
Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers

Department for Environment, Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DRAFT

# Cynllun Rheoli Arfaethedig ar gyfer Pysgodfeydd Pelagig (Penwaig) ar gyfer dyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr

Dyddiad: Ebrill 2026

Fersiwn Ddrafft Derfynol – Gwirio sillafu a fformat – Gwirio tablau data



## Cynnwys

Cynnwys .... 2
Byrfoddau .... 3
Crynodeb Gweithredol .... 4
Beth yw FMP? .... 5
Pam FMP ar gyfer penwaig Môr Iwerddon? .... 5
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid .... 5
Gweledigaeth .... 6
Nodau Polisi .... 6
Sgôp a Phwrpas .... 7
Cefndir .... 8
Asesiadau Stoc a MSY .... 22
Rheoli Pysgodfeydd .... 24
Ystyriaethau amgylcheddol .... 27
Nodau Polisi .... 33
Gweithredu, monitro ac adolygu .... 40

DRAFT

## Byrfoddau

Blim – Uchafbwynt Cyfeiriol Biomas

Bpa – Pwynt Cyfeiriol Rhagofalus ar gyfer Biomas Stoc Silio (SSB)

Btrigger – Trothbwynt Cyfeiriol Biomas

UE – Yr Undeb Ewropeaidd

FMP – Cynllun Rheoli Pysgodfeydd

GES – Statws Amgylcheddol Da

HAWG – Gweithgor Asesu Penwaig

ICES – Y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio'r Môr

JFS – Y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd

JNCC – Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

MCRS – Maint Cadwraeth Cyfeiriol Lleiaf

AMG (MPA) – Ardaloedd Morol Gwarchodedig

MSY – Y Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy

PMFs – Nodweddion Morol Blaenoriaeth

ROI - Gweriniaeth Iwerddon

SNCB – Cyrff Cadwraeth Natur Statudol

SSB – Biomas Stoc Silio

TAC – y Ddalfa Fwyaf a Ganiateir

TCA – Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU

Y Ddeddf – Deddf Pysgodfeydd 2020

WKBeamish – Gweithgor Bioleg, Ecoleg a Rheoli Penwaig Môr Iwerddon

WKIrish – Gweithgor Meincnodi Môr Iwerddon

WFA – Cytundeb Fframwaith Windsor

DRAFT

## Crynodeb Gweithredol

Mae Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) penwaig pelagig (*Clupea harengus*) Môr Iwerddon yn un o 43 o gynlluniau FMP arfaethedig o gwmpas y DU, yn unol â'r Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS[1]). Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu ar y cyd gan yr Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â diwydiant, gwyddonwyr, rheoleiddwyr, cyrff cadwraeth natur statudol (SNCB) a rhanddeiliaid.

Mae'r FMP yn disgrifio'r polisïau ar gyfer rheoli stoc penwaig Môr Iwerddon (a ddiffiniwyd fel stoc yn Is-ardal 7.a i'r Gogledd o 52°30'N) yn gynaliadwy'n unol ag amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020 ('y Ddeddf) ac fel sy'n ofynnol gan y JFS. Paratowyd a chyhoeddwyd y FMP hwn i bwrpas y Ddeddf ac yn unol â'r polisïau yn y JFS.

Nid yw'r FMP hwn yn uniongyrchol berthnasol i ddyfroedd tiriogaethol yr Alban ac Ynys Manaw, ond bydd y polisïau ynddo'n goleuo ein dull o drin a thrafod pysgota yn y dyfroedd hyn ond gan gydnabod eu hannibyniaeth a'u hawtonomi.

Mae'r broses baratoi wedi ystyried y Cynlluniau Morol sydd eisoes yn eu lle (fel sy'n ofynnol o dan adran 58(3) Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) ac Egwyddorion Amgylcheddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 17(5)(a-e) a 19(1) Deddf Amgylchedd 2021).

Mae stoc penwaig Môr Iwerddon yn cael ei chyd-reoli gyda'r Undeb Ewropeaidd (UE) a rheolir cyfleoedd pysgota penwaig drwy benderfynu'r dalfeydd mwyaf a ganiateir (TAC). Mae'r rhain, a mesurau cyd-reoli eraill, yn cael eu penderfynu drwy negodi rhyngwladol o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) rhwng yr UE a'r DU, wedi'i dywys gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael a thrwy gydbwyso ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Disgrifir yr egwyddorion sy'n cael eu dilyn gan y DU ar gyfer negodi pysgodfeydd rhyngwladol yn y JFS o dan adran 4.2.

Mae digon o dystiolaeth wyddonol ar gael fel bo'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gallu asesu'r dalfeydd mwyaf sy'n gynaliadwy (MSY) ar gyfer y stoc. Tan 2024 roedd y cyfleoedd pysgota ar gyfer y bysgodfa benwaig sy'n berthnasol i'r FMP hwn yn cael eu penderfynu drwy ddull MSY. Mae diwygio'r cyngor gwyddonol yn 2024 a 2025 wedi newid y farn wyddonol am y stoc. O ganlyniad, gosodwyd y TAC ar gyfer 2026 uwchlaw'r cyngor gwyddonol.

Nod y polisïau'r FMP hwn yw:

- adfer a chynnal y bysgodfa ar lefel uwchlaw'r hyn a all gynhyrchu MSY, a
- sicrhau bod y stoc yn cael ei physgota'n gynaliadwy.

Mae cyfleoedd pysgota ar gyfer y bysgodfa benwaig ym Môr Iwerddon sy'n berthnasol i'r FMP hwn wedi eu cytuno'n rhyngwladol ar sail cyngor gwyddonol drwy'r dull MSY.

---

[1] Y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae'r camau gweithredu yn y FMP hwn yn adlewyrchu hyn ac yn canolbwyntio ar adfer a chynnal y stoc ar lefel uwchlaw'r hyn a all gynhyrchu MSY, ar sail y dull rheoli presennol, a thrwy adnabod a chyflwyno gwelliannau rheoli lle bo angen gwneud hynny. Mae'r camau gweithredu yn y FMP hefyd yn caniatáu ar gyfer gweithredu yn y dyfodol pe bai angen.

## Beth yw FMP?

Dogfen yw FMP sy'n cael ei pharatoi a'i chyhoeddi o dan Ddeddf 2020 ac yn cyflwyno polisïau a ddyluniwyd i adfer neu gynnal un neu fwy o stociau pysgod môr ar lefel gynaliadwy neu gyfrannu at eu hadfer neu gynnal ar lefel gynaliadwy, yn unol ag adran 6(3)(a) y Ddeddf. Mae'n gynllun gweithredu ar sail tystiolaeth sy'n cynorthwyo i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Mae'r FMP yn gynllun tymor hir sy'n rhaid ei adolygu a, lle bo angen, ei ddiwygio pob 6 mlynedd o leiaf. Mae'n cyflwyno'r weledigaeth a'r nodau tymor hir ar gyfer y bysgodfa (neu bysgodfeydd), ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli sydd eu hangen i gyflawni'r nodau hyn yn y tymor byrrach, a dangosyddion priodol.

## Pam FMP ar gyfer penwaig Môr Iwerddon?

Mae pysgodfa benwaig Môr Iwerddon yn un arbennig o bwysig i ddiwydiant pysgota Gogledd Iwerddon, sydd â'r rhan fwyaf o'r dyraniad cwota yn y DU. Mae'r bysgodfa'n cyfrannu'n gymdeithasol ac economaidd, ac weithiau hefyd yn ddiwylliannol, at gymunedau arfordirol drwy gyflogi pobl mewn pysgota a phrosesu. Nod y FMP hwn yw sicrhau bod y bysgodfa hon yn parhau i gael ei rheoli'n gynaliadwy'n unol ag amcanion y pysgodfeydd.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Datblygwyd y FMP hwn yn gydweithredol rhwng tri awdurdod polisi pysgodfeydd y DU - DAERA, Defra a Llywodraeth Cymru, a thrwy ymgysylltu â sefydliadau pysgota a grwpiau rhanddeiliaid ar draws y DU.

Sefydlwyd gweithgor o randdeiliaid allweddol ym mis Medi 2023 a fu'n cwrdd yn rheolaidd i oleuo cynnwys y FMP hwn. Enw'r grŵp hwn oedd Gweithgor FMP Pelagig Môr Iwerddon ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant pysgota pelagig, awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol, gwyddonwyr pysgodfeydd a chyrff eNGO (sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol). Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd dwyochrog ar wahân dros nifer o fisoedd i gasglu barn a mewnbwn ychwanegol yn ystod y cam cyn-ymgynghori.

Cafodd allbwn Gweithgor FMP Pelagig Môr Iwerddon ei adolygu gan Grŵp Cynghori FMP Gogledd Iwerddon, eto'n cynnwys rhanddeiliaid gyda throsolwg ar bob FMP o dan DAERA. Cafwyd mewnbwn hefyd gan Weithgor FMP y DU (FMPWG) sy'n

cynnwys cynrychiolwyr o bedwar Awdurdod Polisi Pysgodfeydd y DU (Defra a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban).

Ymgysylltwyd ymhellach â rhanddeiliaid yn 2025. Bydd adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol hefyd yn helpu i lunio'r FMP terfynol. Bydd mwy o ymgysylltu eto'n digwydd cyn gweithredu polisïau'r FMP.

## Gweledigaeth

Gweledigaeth y FMP hwn yw bod pysgodfa benwaig Môr Iwerddon yn cael ei rheoli'n gynaliadwy fel bod stociau'n cael eu hadfer a'u cynnal yn hirdymor ar lefel uwchlaw'r hyn a all gynhyrchu'r Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy (MSY). Mae'r polisïau a'r camau gweithredu a ddisgrifir yn y FMP hwn yn awgrymu sut i gyflawni hyn mewn ffordd sy'n gyson gyda, ac sy'n cefnogi'r gwaith ehangach o gyflawni'r amcanion pysgodfeydd yn y Ddeddf ac ym mholisïau'r JFS.

## Nodau Polisi

Oherwydd bod digon o dystiolaeth i asesu MSY, rhaid i'r FMP gynnwys polisïau sydd o leiaf yn cyfrannu at adfer neu gynnal y stoc ar lefel MSY.

I sicrhau y rheolir y bysgodfa benwaig yn effeithiol, mae'r FMP yn adnabod pum nod polisi (isod) yn ymwneud â blaenoriaethau rheoli domestig a rhyngwladol. Mae'r nodau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad gyda blaenoriaeth briodol iddynt i sicrhau allbynnau realistig a mesuradwy. Cawsant eu drafftio i gwrdd â gofynion adran 6(3)(a) y Ddeddf a'r polisïau a ddisgrifir yn y JFS. Ar gyfer pob nod, mae'r cynllun yn cyflwyno:

- rhesymeg;
- camau gweithredu parhaus, tymor byr a mwy hirdymor; a
- sut fydd y camau gweithredu'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd.

Polisïau'r FMP hwn yw:

- Nod Polisi 1: Cynaeafu penwaig Môr Iwerddon yn gynaliadwy i gyfrannu at adfer a chynnal y biomas ar lefel uwchlaw'r hyn a all gynhyrchu MSY.
- Nod Polisi 2: Defnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael i gynorthwyo penderfyniadau rheoli wrth benderfynu cyfleoedd pysgota cynaliadwy.
- Nod Polisi 3: Cwblhau gwaith rheoli cynaliadwy ehangach drwy gymryd camau i leihau effaith pysgodfeydd penwaig Môr Iwerddon ar yr ecosystem forol.
- Nod Polisi 4: Cefnogi'r diwydiant pysgota i ddarparu budd economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau gwledig ac arfordirol.
- Nod Polisi 5: Lleihau effaith gweithgareddau pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i newid hinsawdd.

Trafodir dangosyddion perfformiad ar gyfer y FMP yn yr adran Monitro.

## Sgôp a Phwrpas

Mae'r FMP hwn yn ymwneud â rheoli stoc penwaig Môr Iwerddon (Clupea harengus) yn Is-ardal 7.a. ICES i'r Gogledd o 52°30N yn nyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr Is-ardal 7.a ICES. Nid yw hyn yn cynnwys dyfroedd tiriogaethol yr Alban ac Ynys Manaw.

O dan Ddeddf 2020, rhaid i'r awdurdod neu awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi cynlluniau FMP yn unol â'r rhestr a'r amserlen yn JFS y DU. Yr awdurdodau perthnasol ar gyfer y FMP hwn yw'r Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru.

Paratowyd a chyhoeddwyd y FMP hwn i:

- gydymffurfio â gofynion y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS)
- cydymffurfio ag adran 6 i bwrpas Deddf Pysgodfeydd 2020
- cydymffurfio â Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (rheoliadau SEA)
- cyfrannu at gyflawni'r 8 amcan pysgodfeydd yn y Ddeddf.

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bob pysgota penwaig, yn defnyddio pob dull a chan bob cwch o bob gwlad yn gweithredu yn ardal y cynllun hwn.

## Cefndir

### Lleoliad


Mae’r bysgodfa hon wedi’i lleoli yn Is-ardal 7.a. ICES i’r Gogledd o 52°30N (Môr Iwerddon).

Mae’r FMP yn berthnasol i bysgota’r stoc yma yn nyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr yn unig; mae Ffigwr 1 yn dangos lleoliad Is-ardal 7.a yn gyffredinol, a Ffigwr 2 yn dangos y dyfroedd dan sylw yn y FMP hwn. Stoc penwaig Môr Iwerddon yw’r stoc a ddisgrifir gan ICES yn Is-ardal 7.a ac i’r Gogledd o 52°30N.

DRAFT

# Fig.1 International Council for the Exploration of the Sea (ICES) Subarea 7.a

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers




**ICES Areas**

- ICES 7.a Area
- ICES Areas




For illustrative purposes only. Correct at time of data issue, not maintained. Not prejudicial to delimitation.
Date of Publication: 05/06/2026
Coordinate System: WGS 1984 Web Mercator (Auxiliary Sphere)
Projection: Mercator (Auxiliary Sphere)
DAERA Reference: Marine_Data_and_Evidence\Fisheries Management

NOT TO BE USED FOR NAVIGATION

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, map compilation © Crown Copyright, 2026.
Source data: International Council for the Exploration of the Sea, ICES spatial framework data.
Basemap: Esri, TomTom, FAO, NOAA, USGS

# Fig.2 The Irish Sea Pelagic Fisheries Management Plan Area

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers




For illustrative purposes only. Correct at time of data issue, not maintained. Not prejudicial to delimitation.
Date of Publication: 05/06/2026
Coordinate System: WGS 1984 Web Mercator (Auxiliary Sphere)
Projection: Mercator (Auxiliary Sphere)
DAERA Reference: Marine_Data_and_Evidence\Fisheries Management

NOT TO BE USED FOR NAVIGATION

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, map compilation © Crown Copyright, 2026. Source data: United Kingdom, Overseas Territories and Crown Dependencies Limits and Boundaries Dataset, UK Hydrographic Office, 19 January 2023, licensed under the Open Government Licence v3.0. Office for National Statistics, Countries (December 2021) Boundaries GB BGC, contains Ordnance Survey and ONS Intellectual Property Rights. European Environment Agency, EEA coastline for analysis, polygon, version 3.0, March 2017, copyright and reuse subject to source terms. International Council for the Exploration of the Sea, relevant ICES spatial framework data. Basemap: Esri, TomTom, FAO, NOAA, USGS, United Kingdom Hydrographic Office
customerservices@ukho.gov.uk

## Trosolwg ar y Stoc

Credir fod penwaig Môr Iwerddon (*Clupea harengus*) yn rhan o grŵp stoc silff Malin (poblogaethau stoc rhyng-gysylltiedig sydd i'w cael yn ardal Môr Malin oddi ar arfordir gogledd-orllewin Iwerddon a de-orllewin yr Alban), gyda chyfran o stoc penwaig Môr Iwerddon yn mudo i ogledd Môr Iwerddon dros yr haf i fwydo.

Mae penwaig yn rhywogaeth o bysgod bwyd sy'n perthyn i'r urdd *clupea.* Mae penwaig yn aml yn symud mewn ysgolion mawr o gwmpas bryniau pysgota a ger yr arfordir, yn enwedig mewn dŵr bas claear yng nghefnforoedd Gogledd Môr Iwerydd, gan gynnwys Môr Iwerddon.

Mae silio'n digwydd yn bennaf rhwng Medi a Thachwedd mewn dyfroedd arfordirol i'r dwyrain o Arfordir Gogledd Iwerddon ac i'r dwyrain o Ynys Manaw mewn ardal y cyfeirir ati'n gyffredin fel *Douglas Bank* (Ffigwr 3). Er bod y prif ddyfroedd silio wedi eu hadnabod, mae data arolygon ynghyd â gwybodaeth anecdotaidd gan y gymuned belagig yn awgrymu y gallai silio yn yr hydref fod yn digwydd yn hwyrach a bod silio ychwanegol efallai'n digwydd ar adegau gwahanol (silio gwanwyn rhwng Ebrill a Mehefin).

Gwyddom fod penwaig sy'n silio yn y gwanwyn o'r Môr Celtaidd, a phoblogaethau cyfagos eraill o bosib hefyd, yn cymysgu â phenwaig Môr Iwerddon yn ystod cyfnod silio'r hydref, ond hyd yma ni wyddom faint o gymysgu sy'n digwydd a faint sydd yna'n cael eu dal o wahanol boblogaethau.

Yn ôl dadansoddiad genetig diweddar o samplau a gasglwyd yn ystod Arolwg Acwsteg Môr Iwerddon yn 2021 a 2022, mae poblogaethau'n cymysgu'n bennaf mewn ardal ar hyd y cyfuchliniau 60-100m i'r gorllewin o Ynys Manaw. Er y tybiwyd i ddechrau bod cymysgu ond yn digwydd yn y cyfnodau anaeddfed, awgryma'r dadansoddiadau diweddar fod pysgod o bob oed yn cymysgu.

Mae amrywiad rhyng-flynyddol hefyd yn y gyfran o benwaig silio gwanwyn a gaeaf ym Môr Iwerddon, ac amrywiad hefyd yn eu patrymau dosbarthu.

Mae'n ansicr hefyd a fydd pysgod sy'n silio yn y gwanwyn a ddaeth o safleoedd silio yn y Moroedd Celtaidd, neu o ddyfroedd silio anhysbys eraill, yn dychwelyd i'w dyfroedd silio neu'n aros ym Môr Iwerddon i silio. Mae angen mwy o ymchwil i ennill dealltwriaeth well o strwythur y boblogaeth.

Gallai'r amrywiad rhyng-flynyddol ym mhatrymau mudo'r boblogaeth benwaig fod oherwydd bod amseriad yr arolwg acwsteg blynyddol yn anghyson â phatrwm mudo tybiedig y stoc silio o Silff Malin i Fôr Iwerddon.

Mae maint y stoc, yn naturiol, yn amrywio'n sylweddol wrth i amodau amgylcheddol newid, er enghraifft mae tymheredd ac argaeledd ysglyfaeth yn dylanwadu ar bysgod ifanc yn goroesi.

Mae gweithgareddau anthropogenig morol cynyddol, a’r effaith bosib ar stoc silio Môr Iwerddon, yn destun pryder; mae’r is-haen ro’n gynefin hanfodol ar gyfer penwaig silio, a gallai dympio sborion carthu, cloddio am agregau morol, gan gynnwys gro a thywod, a chodi strwythurau fel tyrbinau gwynt wrth ymyl y dyfroedd silio, gael effaith sylweddol iawn felly ar lwyddiant penwaig yn silio (ICES[2]).


Mae asesiad o benwaig Môr Iwerddon yn Is-ardal 7.a. i’r Gogledd o 52°30’N felly’n cael ei wneud ar stoc gymysg. Gallai’r dalfeydd a mesuriadau’r arolwg acwsteg gynnwys cyfran anhysbys o bysgod o stociau eraill. Bydd angen ymchwilio ymhellach i ganlyniadau’r cymysgu hwn, er mwyn gallu asesu, rheoli a rhoi cyngor. Yn y gweithdy WKIrish (Gweithgor ICES ar ecosystem Môr Iwerddon), ymchwiliwyd i’r dystiolaeth ddiweddaraf ar ddalfeydd a’u cyfansoddiad, gan gynnwys hyd, pwysau ac aeddfedrwydd yn ôl oed, marwolaethau naturiol a marwolaethau o bysgota, gydag ymchwiliadau pellach yn parhau. Mae Ffigwr 3 yn dangos lleoliad y dyfroedd silio ar gyfer penwaig.

DRAFT

[2] https://doi.org/10.17895/ices.advice.29477060

# Fig.3 Herring Spawning Grounds

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers




**Boundaries**

- UK Exclusive Economic Zone
- UKHO Maritime Boundaries and Limits
- FMP Area
- ICES Areas
- ICES Statistical Rectangles

**Irish Sea Spawning Grounds**

Season

- Autumn
- Autumn and winter
- Spring
- Summer and Autumn
- Winter
- ICES Statistical Rectangles




Figure adapted from Frost & Diele (2022). Known Herring Spawning Grounds Based on Occurrence of Spawning Herring ('Spring' and 'Autumn'),Herring Eggs (West Coast Clyde Area,'Spring') and Herring Larvae ('Spring', 'Summer', 'Autumn').Figure adapted from Frost & Diele (2022).

Date of Publication: 05/06/2026
Coordinate System: WGS 1984 Web Mercator (Auxiliary Sphere)
Projection: Mercator (Auxiliary Sphere)
DAERA Reference: Marine_Data_and_Evidence\Fisheries Management

NOT TO BE USED FOR NAVIGATION


Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, map compilation © Crown Copyright, 2026.
Source data: United Kingdom, Overseas Territories and Crown Dependencies Limits and Boundaries Dataset, UK Hydrographic Office, 19 January 2023, licensed under the Open Government Licence v3.0. Office for National Statistics, Countries (December 2021) Boundaries GB BGC, contains Ordnance Survey and ONS Intellectual Property Rights. European Environment Agency, EEA coastline for analysis, polygon, version 3.0, March 2017, copyright and reuse subject to source terms. International Council for the Exploration of the Sea, relevant ICES spatial framework data. Fisheries Research Services, Scotland. Cefas © Crown Copyright. Basemap:Esri, TomTom, FAO, NOAA, USGS, United Kingdom Hydrographic Office customerservices@ukho.gov.uk
Figure adapted from Frost & Diele (2022), Reviews in Fish Biology and Fisheries, 32(3), 721–744.
For illustrative purposes only. Correct at time of data issue, not maintained. Not prejudicial to delimitation.

## Y Bysgodfa

**Gogledd Iwerddon**
Mae fflyd belagig Gogledd Iwerddon yn cynnwys tri chwch mawr yn bennaf, sydd â'r rhan fwyaf o'r cwota ac yn dal a glanio'r rhan fwyaf o benwaig Môr Iwerddon. Mae nifer o gychod llai hefyd yn arallgyfeirio i bysgota penwaig am gyfnodau byr.

Mae Grŵp Cynaliadwyedd Pelagig Gogledd Iwerddon (NIPSG) yn cynnwys y ddau sefydliad cynhyrchwyr yn GI, perchnogion cychod pelagig mwy, a nifer o broseswyr pelagig. Mae'r cychod NIPSG yn pysgota pysgodfa darged. Mae'r pysgod yn cael eu hadnabod drwy gyfuniad o ddyfeisiau adlais sonar ac adlais seinydd, gyda'r rhwyd yn cael ei gosod draw o'r targed a'i thynnu drwyddo. Mae mynediad i'r rhwyd yn cael ei fonitro, a chynnwys y rhwyd, felly gellir halio'r rhwyd gyda'r ddalfa'n syth ar ôl gorffen treillrwydo. Mae hyn yn sicrhau bod y pysgod yn eu cyflwr gorau ac mae'r dull tra-detholus o bysgota, drwy adnabod ysgolion unigol a physgota mewn canolddwr, oddi ar wely'r môr, yn lleihau sgîl-ddal dieisiau.

Mae'r treillrwydi a ddefnyddir gan y cychod hyn wedi eu dylunio a'u rigio i bysgota mewn canolddwr, gan gynnwys mewn dŵr wyneb. Mae dellt mawr yn sachau casglu'r dreillrwyd, wrth symud ymlaen, yn hel y pysgod cyn i'r dellt fynd yn llai yn y sgŵar, yn y bol ac – yn y pen draw – yn y sach gasglu (isafswm maint dellt o 32mm).



**Ffigwr 4 – Cwch yn tynnu treillrwyd belagig unigol. Ffynhonnell: Databas Gêr Seafish**

Rheolir dyfnder pysgota'r treillrwydi gan gyflymder y tynnu a hyd y weiren neu'r rhaff. Os oes cwch unigol yn treillrwydo, defnyddir drysau treillrwyd belagig i gadw ceg y

rhwyd ar agor (ffigwr 4) yn lle bod pen pob rhwyd yn cael ei dynnu ar yr un pryd gan ddau gwch ar wahân (treillrwyd ganolddwr yn bâr).

Mae codi'r pysgod o'r dŵr yn broses awtomataidd iawn sy'n pwmpio'r pysgod i'r cwch o'r rhwyd yn syth i danciau mawr yn cynnwys dŵr môr wedi'i oeri (RSW). O'r blaen roedd y rhan fwyaf o bysgota'n digwydd wedi nos gan ymateb i arferion heigio'r penwaig, ond er mwyn osgoi sgîl-ddal cŵn pigog, sydd ar gynnydd, mae cychod wedi dechrau gwneud mwy o bysgota liw dydd.

Er y gallai'r cychod fod yn pysgota am hyd at wythnos, mae pysgod yn cael eu glanio'n ddyddiol yn aml, gan gadw'r ansawdd yn uchel. Mae maint y ddalfa fel arfer yn amrywio rhwng 50 a 100 tunnell gan ddibynnu ar ofynion y cyfleusterau prosesu. Mae'r tri chwch yn glanio eu pysgod o'r ardal yma, yn bennaf i ddinas Belffast oherwydd bod y porthladd yno'n ddigon dwfn i'r cychod. Mae'r pysgod yn cael eu cludo ar lori i dair ffatri brosesu yn Ardglass a Kilkeel, sydd i gyd yn aelodau o'r grŵp cleient NIPSG.

Yn ôl arsylwyr o'r bysgodfa nid oes unrhyw famaliaid morol wedi cael eu sgîl-ddal, ac ychydig iawn o rywogaethau pysgod di-darged sy'n cael eu sgîl-ddal. Ambell waith, gall corbenwaig gymysgu ag haig o benwaig ond fel arfer mae hyn yn digwydd yn nyfroedd y glannau ac mae'n beth prin eu gweld yn ardal ysgolion mudol y bysgodfa. Yn ddiweddar daeth cŵn pigog yn fwy cyffredin gan greu anawsterau i'r bysgodfa. Mae pysgotwyr yn ceisio osgoi dal cŵn pigog oherwydd gall effeithio ar ansawdd y ddalfa benwaig.

Yn y gorffennol, enillodd bysgodfa benwaig Môr Iwerddon achrediad gan y Cyngor Stiwardiaeth Morol (MSC). Daeth yr achrediad i ben oherwydd pryderon parhaus am asesiad ICES.

**Pysgodfa Glannau Mourne**


Mae dyfroedd silio pwysig ar gyfer penwaig oddi ar arfordir Mourne ac mae pysgota yn yr ardal yma wedi'i wahardd rhwng 21 Medi a 31 Rhagfyr pob blwyddyn. "Ardal Mourne" yw'r rhan o Fôr Iwerddon sydd wedi'i ffinio gan y cyfesurynnau canlynol:

- arfordir dwyreiniol GI ar ledred o 54° 15'N
- lledred 54° 15'N, hydred 5° 50'W
- lledred 53° 50'N, hydred 5° 50'W
- arfordir dwyreiniol Iwerddon ar ledred o 53° 50'N

Roedd yr ardal yma'n lleoliad i bysgodfa hanesyddol yn targedu heigiau o bysgod silio. Caniateir mynediad o hyd i bysgodfa gyfyngedig (tua 50t). Yn hanesyddol mae'r pysgota wedi cael ei gyfyngu i gychod heb fod dros 40tr (12.2m) o hyd a rhaid iddynt ddefnyddio rhwydi gyda dellt 54mm o leiaf, o dan amodau'r drwydded. Rhaid i gychod wneud cais am drwydded a chwrdd â'r amodau yn y drwydded. Mae Ffigwr 6 yn dangos ardal y gwaharddiad.

# Fig.4 Mourne Closure Box

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs | An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe | Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers




For illustrative purposes only. Correct at time of data issue, not maintained. Not prejudicial to delimitation.
Date of Publication: 05/06/2026
Coordinate System: WGS 1984 Web Mercator (Auxiliary Sphere)
Projection: Mercator (Auxiliary Sphere)
DAERA Reference: Marine_Data_and_Evidence\Fisheries Management

NOT TO BE USED FOR NAVIGATION

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, map compilation © Crown Copyright, 2026.
Source data: United Kingdom, Overseas Territories and Crown Dependencies Limits and Boundaries Dataset, UK Hydrographic Office, 19 January 2023, licensed under the Open Government Licence v3.0. Office for National Statistics, Countries (December 2021) Boundaries GB BGC, contains Ordnance Survey and ONS Intellectual Property Rights. European Environment Agency, EEA coastline for analysis, polygon, version 3.0, March 2017, copyright and reuse subject to source terms. International Council for the Exploration of the Sea, relevant ICES spatial framework data. Basemap: Esri, TomTom, FAO, NOAA, USGS, United Kingdom Hydrographic Office
customerservices@ukho.gov.uk

**Pysgodfeydd penwaig eraill yn GI**
Mynegodd rai cychod rhwydo llai a chanolig sydd ddim yn rhan o Grŵp Cynaliadwyedd Pelagig Gogledd Iwerddon diddordeb mewn bod yn rhan o'r bysgodfa benwaig hon ym Môr Iwerddon gan ddefnyddio cwota ychwanegol i arallgyfeirio. DAERA sy'n gyfrifol am sicrhau bod cwota ychwanegol Gogledd Iwerddon yn cael ei ddyrannu'n unol â'r meini prawf yn Adran 25 y Ddeddf.

**Lloegr**
Yn hanesyddol roedd gan fflyd Lloegr bysgodfa targedu penwaig yn y Gogledd-Orllewin, ond erbyn hyn pysgodfa sgîl-ddal yw penwaig yn bennaf yn fflyd Gogledd-Orllewin Lloegr, ac ychydig iawn sy'n cael ei lanio. Nid yw pysgodfa darged yn hyfyw ar hyn o bryd, oherwydd faint o benwaig sy'n cael eu dal a maint y cwch sydd ei angen i wneud y pysgota'n broffidiol.

**Cymru**
Mae'r bysgodfa yng Nghymru'n un grefftwrol ei natur. Gan ddigwydd ym misoedd yr hydref neu'r gaeaf, mae'n dibynnu'n llwyr bron ar y tywydd, a daw'r pysgotwyr o'r fflyd cramenogion leol sy'n arallgyfeirio i bysgota'r stoc hon. Y prif ddull a ddefnyddir yw rhwydi drysu gosod môr-waelod, a osodir ar gyfnodau o ddistyll yng nghilfachau'r glannau wrth i'r pysgod symud i mewn ar y llanw. Mae llai o ddalfeydd a physgota yn y blynyddoedd diweddar, nid lleiaf ar ôl colli marchnad ffres yng Nghymru.

**Yr Alban**
Mae gan Fae Logan yn yr Alban waharddiad parhaol ar bysgota penwaig i warchod y pysgod ifanc. Mae'r gwaharddiad yn rhan o reoliadau ehangach i ddiogelu dyfroedd silio a physgod ifanc yn yr ardal.

**Ardaloedd Trawsffiniol**
Rheolir pysgodfa benwaig Môr Iwerddon gan gyfyngiadau Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir (TAC). Rhennir dalfeydd TAC rhwng y DU a'r UE gydag Iwerddon yn dal cyfran lawn yr UE. Mae Is-ardal 7.a ICES hefyd yn cynnwys dyfroedd Ynys Manaw (IoM).

**Dyfroedd Ynys Manaw**
Er mwyn i gychod pysgota Prydain gael mynediad i fôr tiriogaethol Ynys Manaw, rhaid cael trwydded pysgota môr Ynys Manaw, gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd ac Amaethyddiaeth (DEFA). Mae cyfleoedd pysgota (fel cwotâu dalfeydd) a ddefnyddir ym môr tiriogaethol Ynys Manaw'n cael eu cyfrif tuag at faint sy'n manteisio ar gyfleoedd pysgota'r DU. Mae mesurau cadwraeth technegol penodol mewn grym ym môr tiriogaethol Ynys Manaw o dan Is-ddeddfau Pysgodfeydd Môr (Mesurau Technegol) 2000, o dan Ddeddf Pysgodfeydd 2012 (Tynwald).

Mae Is-ddeddf 18[3] (cyfyngiadau ar bysgota penwaig) yn gorfodi gwaharddiad silio ("Blwch Penwaig Douglas Bank") yn flynyddol rhwng 21 Medi – 15 Tachwedd. Diffinnir yr ardal fel rhan o'r môr tiriogaethol sydd wedi'i ffinio gan y cyfesurynnau canlynol:

- arfordir dwyreiniol yr Ynys ar ledred o 54° 20′ N
- lledred 54° 20′ N, hydred 3° 40′ W
- lledred 53° 50′ N, hydred 3° 50′ W
- lledred 53° 50′ N, hydred 4° 50′ W
- arfordir de-orllewinol yr Ynys ar hydred o 4° 50′W.

Yn 2023, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol eithriad penodol i Reolau'r DU ar Reoli Cwotâu (QMR)[4] i ganiatáu i gyfran o gwota ychwanegol (AQ) y DU gael ei dyrannu i Ynys Manaw rhwng 2023-2026. Cytunodd bob un o'r Llywodraethau Datganoledig i'r eithriad hwn, a amlinellir yn Atodiad N QMR y DU, er mwyn sicrhau bod Ynys Manaw'n derbyn cyfran o AQ y DU ar gyfer penwaig Môr Iwerddon (cod y stoc: HER/07A/MM).

O dan y trefniant hwn, i ddechrau dyrannwyd 100 tunnell i Ynys Manaw yn 2023 gan ei gynyddu'n gynyddrannol pob blwyddyn tan 2026. Mae'r trefniant graddol hwn yn adlewyrchu ymrwymiad i ehangu mynediad Ynys Manaw'n raddol at yr adnoddau penwaig ym Môr Iwerddon ond gan gadw lefel gyffredinol y cwota'n sefydlog.  Bydd yr eithriad yn cael ei adolygu yn 2026.

Cafodd eithriad cysylltiedig hefyd ei gyflwyno ar gyfer Gogledd Iwerddon i ddarparu dyraniad mecryll ar lefel gymesur â dyraniad penwaig Ynys Manaw. Mae'r trefniant cymesur hwn yn seiliedig ar gymhareb o 2:1, felly am bob dwy dunnell o benwaig sy'n cael ei ddyrannu i Ynys Manaw, mae Gogledd Iwerddon yn derbyn un dunnell o fecryll.

**Yr UE / Gweriniaeth Iwerddon**

Amlinellir cyfran y DU a'r UE o gwota penwaig Môr Iwerddon yn Atodiad 35 y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) a gosodir y TAC yn y trafodaethau dwyochrog blynyddol. O dan y TAC, rhaid i gychod pysgota'r UE yn nyfroedd y DU gydymffurfio â mesurau'r DU, a rhaid i gychod y DU sy'n pysgota yn nyfroedd yr UE hefyd gydymffurfio â mesurau'r UE.

Hefyd, mae Gweriniaeth Iwerddon (ROI) a Gogledd Iwerddon yn caniatáu mynediad cyfnewidiol at rai ardaloedd yn nyfroedd tiriogaethol ei gilydd ym Môr Iwerddon. parthau 0-6nm: y trefniant Voisinage oedd yr enw ar hwn. Daeth y trefniant hwn yn rhan o statud yn ROI o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2019. Mae gan fflyd Belagig RSW ROI ganran fach o'r cwota penwaig yn Is-ardal 7.a i'r Gogledd o 52°30'N (Môr Iwerddon) ac yn defnyddio technoleg debyg i fflyd NIPSG.

DRAFT

[3] Is-ddeddfau Pysgodfeydd Môr (Mesurau Technegol) 2000 (gov.im)
[4] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2024) Rheolau Rheoli Cwotâu y DU.

### Sgîl-ddal

Credir mai ychydig iawn o sgîl-ddal sy’n digwydd yn y pysgodfeydd pelagig targed, corbenwaig a mecryll yn bennaf. Yn ôl pysgotwyr, mae mwy o gŵn pigog yn dod yn broblem gynyddol i bysgodfa benwaig Môr Iwerddon ac yn gallu effeithio ar ansawdd y ddalfa bysgod. I fynd i’r afael â’r twf yn nifer y cŵn pigog, cyflwynodd ICES gyngor TAC yn 2023 i gefnogi pysgodfa fasnachol am Gŵn Pigog Gorllewinol sy’n cynnwys Môr Iwerddon. Mae’r cwota yma’n cael ei reoli’n ofalus. Dylai unrhyw fesurau pellach ar gyfer cŵn pigog fod yn gyson â’r Strategaeth Gadwraeth Elasmobranciaid arfaethedig. Mae cynrychiolwyr o Ffederasiwn Pysgotwyr Gogledd Iwerddon (NIFF) a DAERA hefyd yn rhan o grŵp rhanddeiliaid cŵn pigog y DU drwy Cefas.

DRAFT

## Data Dalfeydd Penwaig Diweddar

Tabl 1. Dalfeydd (tunelli) o ‘Ardal Stoc Ddiffiniedig’ Môr Iwerddon (7a) a gwerth (£) y penwaig yn ôl cychod y DU a di-DU: 2020 - 2024.

| | | Glaniadau (t) a Gwerth (£) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwlad gofrestru | Gêr a ddefnyddir | **2020** (t/£) | **2021** (t/£) | **2022** (t/£) | **2023** (t/£) | **2024** (t/£) | **Cyfansymiau** (t/£) |
| Lloegr | Treillrwyd estyllod môr-waelod (unigol) | | | | | 0.0 / £5 | 0.0 / £5 |
| | Treillrwyd cimwch Norwy | | | | 0.0 / £8 | | 0.0 / £8 |
| Ynys Manaw | Leiniau llaw | | | 0.0 / £4 | | 0.0 / £0 | 0.0 / £4 |
| | Bachyn a Lein | | 0.0 / £27 | | 0.0 / £3 | | 0.0 / £30 |
| | Treillrwyd estyllod môr-waelod (unigol) | 0.0 / £2 | | 0.1 / £49 | 100.4 / £63k | 0.5 / £254 | 101.0 / £63k |
| | Treillrwyd estyllod ganolddwr | | | | | 103.8 / £82k | 103.8 / £82k |
| | Treillrwyd cimwch Norwy | 0.0 / £4 | | | | | 0.0 / £4 |
| Gogledd Iwerddon | Potiau | | | | | 2.5 / £1k | 2.5 / £1k |
| | Rhwydi drysu - drifft | 33.4 / £4k | 54.9 / £17k | 43.2 / £15k | 18.7 / £5k | 20.5 / £10k | 170.6 / £50k |
| | Treillrwyd estyllod môr-waelod (unigol) | 0.0 / £0 | 40.4 / £12k | 113.2 / £51k | 43.8 / £18k | 66.2 / £37k | 263.6 / £119k |
| | Treillrwyd estyllod ganolddwr | 1004.5 / £372k | 1749.5 / £989k | 1251.1 / £737k | 49.5 / £25k | 98.5 / £61k | 4153.1 / £2,184k |
| | Treillrwyd môr-waelod yn bâr | | | | 45.2 / £25k | | 45.2 / £25k |
| | Treillrwyd ganolddwr yn bâr | 4931.7 / £2,386k | 4848.3 / £2,266k | 6368.5 / £3,280k | 6873.2 / £3,728k | 6911.3 / £4,027k | 29,933.1 / £15,687k |
| Cymru | Rhwyd ddrysu - amhenodol | | | | 0.0 / £3 | 0.0 / £35 | 0.1 / £38 |
| | Rhwyd ddrysu - gosod | | | | | 0.0 / £16 | 0.0 / £16 |
| | Leiniau llaw | | | | | 0.0 / £3 | 0.0 / £3 |

DRAFT

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bachyn a Lein | | | 0.0 / £20 | | 0.0 / £28 | 0.0 / £48 |
| Iwerddon | Treillrwyd estyllod ganolddwr | 28.6 / £6k | 55.9 / £17k | 0.3 / £0 | 54.9 / £31k | 15.5 / £8k | 155.1 / £61k |
| | Treillrwyd ganolddwr yn bâr | 1267.6 / £571k | 532.8 / £160k | 446.8 / £213k | 265.6 / £114k | 155.4 / £87k | 2668.1 / £1,145k |
| Cyfanswm | | 7266 / £3338k | 7282 / £3461k | 8223 / £4296k | 7451 / £4009k | 7374 / £4315k | 37596 / £19,418k |

DRAFT

## Asesiadau Stoc a MSY

### Cyngor gwyddonol

**Cyngor ICES**
Mae'r dystiolaeth ganlynol wedi'i chasglu ynghyd o'r Adroddiad Gweithgor Asesiadau Penwaig ICES diweddaraf, asesu a'r atodiad stoc cysylltiedig.

Fel y mae Adran 3.2 y JFS yn ei nodi, mae'r DU yn defnyddio dull ar sail tystiolaeth o reoli pysgodfeydd, a'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael. I bwrpas rheoli stoc a phenderfynu TAC, mae hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar ddefnyddio cyngor wedi'i gynhyrchu gan ICES, er y gellir hefyd defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys data'r diwydiant pysgota.

Mae mwy o fanylion am fframwaith a phroses asesu ICES ar gael yma:

- Canllawiau Technegol - Y Broses Gynghori.
- Arweiniad i fframwaith ac egwyddorion cynghori ICES.

Mae cyngor dalfeydd blynyddol ICES yn rhoi hanes diweddar datblygiad y stoc, y gellir yna ei gymharu â dangosyddion biolegol a benderfynir yn wyddonol[5], er mwyn gallu asesu ei statws. Mae'r cyngor yn crynhoi'r dalfeydd diweddar, yn rhoi amcan o farwolaethau pysgota diweddar (F), biomas y stoc silio (SSB) a recriwtio.

Mae ICES yn rhoi cyngor blynyddol ar benwaig Môr Iwerddon. Trefnir cyngor ICES yn ôl categori gan amrywio o 1 (lle y mae'r mwyaf o wybodaeth ar gael) i 6 (y lleiaf). Ar gyfer 2026, mae pysgodfeydd penwaig Môr Iwerddon yn stoc Categori 1 sy'n golygu yr ystyrir bod data llawn yn ôl strwythur oed a maint ar ei chyfer er mwyn gallu cynhyrchu asesiad, a phwyntiau cyfeiriol MSY ar gael i ddarparu fframwaith ar gyfer camau rheoli.

Mae ymarferion meincnod yn offeryn a ddefnyddir gan ICES i adolygu ac ymgorffori gwyddoniaeth neu dystiolaeth newydd yn y broses asesu stoc. Maen nhw'n rhan o'r broses sy'n sicrhau bod cyngor ICES yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael.

Mae'r asesiadau hyn, ynghyd ag atodiadau stoc ayyb, ar gael ar wefan rhannu cyhoeddiadau ICES, Ystorfa ymchwil y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio'r Môr.

Atodiad stoc (2017) Eitem - Atodiad Stoc: Penwaig (Clupea harengus) yn Is-ardal 7.a i'r Gogledd o 52°30'N (Môr Iwerddon) - Y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio'r Môr

**Cyngor diweddar ICES**

[5] $B_{LIM}$, MSY $B_{trigger}$ etc.

Yn ôl y daflen gyngor ddiweddaraf gan ICES, sy'n rhoi cyngor ar gyfleoedd pysgota yn 2026[6], amcangyfrifir bod y pwysau pysgota ar y stoc uwchlaw'r pwyntiau cyfeiriol FMSY a $F_{pa}$ a bod maint y stoc silio o dan $B_{trigger}$ a $B_{pa}$ y MSY ond uwchlaw'r pwynt cyfeiriol Blim.

Mae asesiad ICES o'r stoc hon bellach wedi'i diwygio ddwywaith y tu allan i'r broses feincnodi er mwyn rhoi sylw i wallau yn yr asesiad. Arweiniodd hyn at ddiwygio cyflwr y stoc yn sylweddol gan godi pryderon nad yw'r stoc yn cael ei physgota'n gynaliadwy. Mae'r ddau ddiwygiad canol blwyddyn ar wahân yma o gyngor ICES wedi arwain at lai o hyder yn y model asesu presennol.

Y prif bryder yw'r gwallau diweddar ym mynegai arolwg y stoc, sy'n ymwneud â sut y mae'r model asesu'n defnyddio amcangyfrifon o faint y stoc ar sail ffactorau sain. Cyfrannodd hyn at ddiwygio'r cyngor dalfeydd ar i lawr yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r cyngor am 2026 yn parhau i fod yn asesiad stoc categori 1. Ni ddisgwylir meincnodi tan 2027.

Mae amcan ICES o'r ddalfa wedi bod yn is na'r ddalfa sy'n cyfateb i'r cyngor a'r TAC a gytunwyd tan 2023. Diwygiwyd y cyngor ar gyfleoedd pysgota ar i lawr yn 2024, ac roedd diwygiad o'r cyngor ar gyfer canol blwyddyn 2025 unwaith eto ar i lawr. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd pysgota wedi eu pennu'n uwch na'r cyngor gwyddonol am y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Cyngor arall seiliedig ar ystyriaethau amgylcheddol / ecosystem**

Mae penwaig yn ffynhonnell fwyd bwysig i amrywiaeth o rywogaethau morol eraill gan gynnwys adar môr, e.e. adar plymio fel mulfrain, huganod, a charfilod fel gwylogod. Mae penwaig, sy'n heigio'n dymhorol ym Môr Iwerddon, yn fwyd ysglyfaeth i famaliaid morol fel morloi a theulu'r morfil. Mae llawer o rywogaethau sy'n dibynnu ar benwaig yn fwyd yn wynebu pwysau cronnus yn yr amgylchedd morol, o ddiraddio cynefin, llygredd morol, afiechyd ac effeithiau newid hinsawdd. I roi'r cyfle gorau i rywogaethau gael goroesi ac adfer o boblogaethau wedi disbyddu, mae'n hanfodol bod ganddynt ddigon o fwyd. Mae sicrhau pysgota cynaliadwy felly'n hollbwysig, nid yn unig i'r bobl sy'n bwyta pysgod ond ar gyfer rhywogaethau yn yr amgylchedd morol ehangach. Mae ICES yn gosod lefel o farwolaethau naturiol wrth asesu, i ystyried y berthynas ysglyfaethwr / ysglyfaeth. Nid yw cyngor ICES yn cynnwys unrhyw nod penodol ar gyfer rheoli ysglyfaethwyr.

## Asesu'r dystiolaeth

Er y pryderon am ba mor ddibynadwy yw'r model, mae corff helaeth o dystiolaeth ar gyfer y stoc hon o hyd, digon i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd asesu'r ddalfa fwyaf sy'n gynaliadwy (MSY).

DRAFT

[6] Penwaig (Clupea harengus) yn Is-ardal 7.a i'r Gogledd o 52°30'N (Môr Iwerddon). Yn disodli cyngor a roddwyd ym Mehefin 2025 - Y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio'r Môr

Mae penwaig Môr Iwerddon yn parhau i gael ei asesu fel stoc Categori 1 sy'n golygu yr ystyrir bod data llawn yn ôl strwythur oed a maint ar ei chyfer er mwyn gallu cynhyrchu asesiad, a phwyntiau cyfeiriol MSY ar gael i ddarparu fframwaith ar gyfer camau rheoli.

Er bod cwestiynau o hyd am ba mor gadarn a sicr yw'r cyngor, mae dilyn y cyngor gwyddonol ar gyfer 2026 yn golygu na ellir ystyried bod y stoc hon yn cael ei physgota ar lefel sy'n gyson â sicrhau MSY.

O ganlyniad, dylai polisïau'r FMP hwn geisio:

- adfer a chynnal y bysgodfa ar lefel uwchlaw'r hyn a all gynhyrchu MSY, a
- sicrhau bod y stoc yn cael ei physgota'n gynaliadwy.

## Rheoli Pysgodfeydd

### Strategaeth reoli ar gyfer penwaig Môr Iwerddon

Nod trosfwaol rheoli pysgodfeydd yn y DU yw diogelu'r defnydd cynaliadwy hirdymor o adnoddau pysgodfeydd gan hefyd leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd negyddol posib. Mae'r JFS hefyd yn nodi 'Fel rhan o fod yn Barth Arfordirol annibynnol, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi sector pysgota a dyframaeth bywiog, proffidiol a chynaliadwy wedi'i gefnogi gan amgylchedd morol iach sy'n wydn yn erbyn newid hinsawdd'.

Rheolir yr uchelgeisiau hyn drwy nifer o raglenni polisi domestig a rhyngwladol sy'n gofyn gweithredu i ystyried a lliniaru'r effeithiau niweidiol ehangach y mae pysgota'n ei gael ar yr amgylchedd. Yn nyfroedd y DU, rheolir hyn o dan ddeddfwriaeth bysgodfeydd y DU (fel y Ddeddf, is-ddeddfwriaeth traws-DU ac yn y gwledydd datganoledig a deddfwriaeth flaenorol yr UE sydd bellach yn rhan o gyfraith wedi'i chymhathu) a thrwy amodau trwydded lle bo'n briodol.

**Gosod Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir**

Mae pysgodfa benwaig Môr Iwerddon yn cael ei chyd-reoli gyda'r UE. Mae dalfeydd TAC yn cael eu cytuno drwy negodi rhyngwladol ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael a chydbwyso ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Ar ôl i negodi blynyddol gyda'r UE ddod i ben, mae cyfran y DU o'r TAC yn cael ei phenderfynu fel cyfleoedd pysgota ar gyfer cychod Prydain gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a'i chyhoeddi mewn dogfen o dan adran 23 Deddf 2020.[7] Yn dilyn hyn, mae cwota'r DU yn cael ei ddyrannu rhwng y pedwar awdurdod polisi pysgodfeydd yn unol â QMR y DU.  Mae pob un o Weinyddiaethau Pysgodfeydd y DU yna'n dyrannu eu cyfran o'r cwota i gychod / trwyddedau o dan eu gweinyddiaeth, yn unol â'u rheolau

[7] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2024) Cyfleoedd pysgota ar gyfer cychod pysgota Prydain.



DRAFT

cwota[8] ac Adran 25 y Ddeddf. Mae'n bosib addasu cwotâu, er enghraifft gellir eu trosglwyddo rhwng y grwpiau rheoli sy'n cynrychioli cychod pysgota'r DU, neu eu cyfnewid gyda'r UE.

### Mesurau technegol presennol

Rheolir yr holl bysgota yn nyfroedd y DU gan ystod o Fesurau Cadwraeth Technegol (TCM), sy'n cynnwys rheoliadau ar faint, adeiladwaith a pha gêr pysgod i'w defnyddio, gwaharddiadau, gofynion maint (pa bysgod i'w cadw) a thaflu.

Mae Fframwaith Mesurau Technegol cyfunol yr UE (UE Rhif 1241/2019) yn pennu'r lefel sylfaenol o bysgota detholus ar gyfer pysgodfeydd penodol. Mae mesurau technegol yn tueddu i fod ar gyfer grwpiau penodol o gychod, neu fathau o bysgod, ac felly'n gallu bod yn debyg iawn i fesurau ar gyfer rheoli stociau penwaig eraill.

Mae'r mesurau technegol presennol sydd yn eu lle i reoli stoc benwaig Môr Iwerddon yn gynaliadwy'n cynnwys:

- Maint Cadwraeth Cyfeiriol Lleiaf (MCRS) (sy'n atal targedu pysgod rhy fach drwy sicrhau mai ond pysgod uwchlaw'r MCRS y gellir eu gwerthu i'w bwyta),
    - Maint Cadwraeth Cyfeiriol Lleiaf: 20cm
- Lleiafswm meintiau dellt a strwythur rhwydi pysgota (y safon leiaf sy'n ofynnol er mwyn dal llai o bysgod sydd o dan y MCRS a gwneud gweithgarwch pysgota'n fwy effeithlon ac effeithiol yn gyffredinol),
    - Y maint dellt lleiaf ar gyfer ardal Gwaharddiad Mourne yw 54mm.
    - Mae'r fflyd belagig yn defnyddio dellt mawr yn esgyll y cwch rhwydo wrth symud ymlaen cyn i'r dellt fynd yn llai yn y sgwâr, yn y bol ac – yn y pen draw – yn y sach gasglu (maint dellt lleiaf o 32mm).
- Y Rhwymedigaeth Glanio[9] sy'n rhagnodi bod yn rhaid i bob dalfa o rywogaeth gwota, gan gynnwys penwaig a phob dalfa o dan MCRS, gael eu glanio a'u cyfrif yn erbyn cwota oni bai fod eithriad.
- Gwaharddiadau tymhorol – gan gynnwys ardal Glannau Mourne a dyfroedd Ynys Manaw.

Rhoddir mwy o fanylion am fesurau technegol ar wefan rheolau a rheoliadau Cadwraeth Technegol a Rhwymedigaeth Glanio Llywodraeth y DU[10].

---

[8] Rheolau rheoli cwotâu a benderfynir gan Lywodraeth yr Alban, Defra, Llywodraeth Cymru a DAERA.
[9] Disgrifir y Rhwymedigaeth Glanio yn Erthygl 15 Rheoliad rhif 1380/2013 yr UE sy'n gyfraith wedi'i chymhathu. Mae ar gael ar wefan legislation.gov.uk yma. Dylid nodi bod eithriadau wedi eu gwneud ar ôl hynny ar sail *de minimis* neu oroesi uchel yn Neddfau dirprwyedig ategol yr UE ac offerynnau statudol y DU.
[10] Llywodraeth y DU (2024) Rheolau a rheoliadau Cadwraeth Technegol a Rhwymedigaeth Glanio o 2022 ymlaen.

O ran y rhwymedigaeth glanio, mae camau'n cael eu cymryd ar draws y DU i'w gweithredu'n well, sydd wedi eu cynnwys yn yr adran camau gweithredu. Credir mai ychydig iawn o benwaig dieisiau (dros y cwota neu'n rhy fach) sy'n cael eu taflu, a chredir mai ychydig iawn o sgîl-ddal rhywogaethau di-darged eraill sydd hefyd yn digwydd.

**Gogledd Iwerddon**

**Glannau Mourne:** Mae gwaharddiad penwaig Glannau Mourne, fel y nodir uchod, yn gwahardd targedu penwaig mewn ardal lle y mae silio'n digwydd. Mae eithriad ar gyfer pysgodfa hanesyddol o gychod bach (llai na 12.2m) yn defnyddio rhwydi drifft. Mae'r fflyd yma wedi'i chyfyngu i ddalfeydd o tua 50t y flwyddyn.

**Mesurau technegol eraill:** Mae'r cychod pelagig mwy'n defnyddio treillrwydi rhaff hadog i sgîl-ddal llai o elasmobranciaid, fel mesur gwirfoddol ychwanegol.

**Lloegr**

Is-ddeddf IFCA 8 y Gogledd-Orllewin: Rhwydi Dellt Bach. Gwaherddir i unrhyw berson ddefnyddio rhwyd gyda dellt llai na 65mm wrth bysgota am berdys, corgimychiaid, mecryll, penwaig, corbenwaig, silod mân neu 'slywod tywod.

**Cymru**

Nid oes unrhyw reoliadau penodol ar gyfer y stoc benwaig yn nyfroedd Cymru. Ynghyd â rheoliadau cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o is-ddeddfau ar gyfer dyfroedd y glannau (0-6 milltir). Mae'r is-ddeddfau hyn yn cynnwys cyfyngiadau gofodol ac amser ar ddefnyddio rhwydi gosod a rhwydi drifft, a lleiafswm maint dellt wrth bysgota am benwaig.

## Monitro, rheoli a gorfodi

Mae gan reoliadau pysgodfeydd ystod o bwrpasau gan gynnwys atal gweithgareddau sy'n cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd yr amgylchedd morol. Ffocws yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yw lleihau'r prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau hynny, er enghraifft peidio ag adrodd neu adrodd yn anghywir, defnyddio gêr pysgota anghyfreithlon, a physgota mewn llefydd gyda chyfyngiadau.

Mae gan Swyddogion Gorfodi Pysgodfeydd (neu Forol) awdurdod i orfodi deddfwriaeth pysgodfeydd y DU a'r UE ac unrhyw reoliadau rheoli cysylltiedig sy'n seiliedig ar wybodaeth, seiliedig ar risg neu sy'n ofynnol o dan rwymedigaethau rhyngwladol y DU i sicrhau bod amrywiol rywogaethau pysgod yn cael eu gwarchod a'u diogelu. Mae gorfodi'r gwahanol reoliadau, yn ddomestig a rhyngwladol, yn unol â'r canllawiau perthnasol ar gyfer rheoleiddwyr.

Ar draws y DU, mae ystod o asedau i gefnogi hyn gan gynnwys arolygiadau ar y môr o gychod pysgota gan Gychod Gwarchod Pysgodfeydd, adroddiadau amserol a chywir o weithgareddau pysgota i'r awdurdodau cymwys, a gwaith monitro ac adrodd lloeren 24/7 gan Ganolfan Monitro Pysgodfeydd y DU.

Rhaid i gychod pysgota dros 12m fod â System Monitro Cychod (VMS) lloeren gwbl weithredol, a llyfrau log electronig, fel y gall awdurdodau fonitro a rheoli gweithgareddau pysgota o bell ac i annog mwy o gydymffurfio. Mae VMS hefyd yn cael ei chyflwyno ar draws y fflyd bysgota o dan 12m a bydd yn rhan o'r gyfundrefn fonitro a gorfodaeth ar gyfer pob math o gychod pysgota ar ôl gorffen ei chyflwyno. Ers 2022, rhaid i bob cwch dan 12m gyda thrwydded sy'n pysgota ym mharth Cymru fod â system wirio VMS weithredol sy'n darlledu pob 10 munud.

Mae hefyd angen gwneud archwiliadau swyddfa o gychod pysgota i sicrhau cydymffurfio a bod y gweithgareddau pysgota'n cael eu cofnodi'n gywir, h.y. ardaloedd dal, ac i roi sicrwydd ar draws y gadwyn olrhain gweithgareddau.

Mae awdurdodau pysgodfeydd y DU yn gweithredu cyfundrefn trwyddedu cychod pysgota a mesurau rheoli ar draws y gadwyn olrhain gweithgareddau, o ddal pysgod i'w gwerthu. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys gofynion i gofnodi manylion y ddalfa pan fydd y cwch ar y môr, pwysau'r pysgod a laniwyd, dogfennau cludo a throsglwyddo ar ôl glanio, a nodiadau gwerthu gan brynwyr cofrestredig. Gyda'r dataset cynhwysfawr hwn, gall awdurdodau pysgodfeydd fonitro pysgota a chydymffurfio â rheoliadau lleol a chenedlaethol yn fwy effeithiol.

**Gofynion rheoli ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon**
Mae gan Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr DAERA awdurdod o dan ddeddfwriaeth (h.y. Deddf Pysgodfeydd (GI) 1966, a Deddf Pysgodfeydd Môr 1968) ac o dan Reoliadau ac Is-ddeddfau a basiwyd wedyn, i warchod, diogelu, hyrwyddo a datblygu pysgodfeydd masnachol a dyframaeth o fewn ei hawdurdodaeth. Yn unol â Phrotocol Fframwaith Windsor (WFA) Gogledd Iwerddon, rhaid i arolygwyr pysgodfeydd môr DAERA hefyd ystyried unrhyw ofynion WFA, er enghraifft gofynion Afreoledig, Heb eu Hadrodd ac Anghyfreithlon ("IUU") yr UE. Rhaid iddynt hefyd arolygu ac ardystio bod pysgod sy'n cael eu dal ac yn dod i mewn i GI yn cwrdd â phrofion cynaliadwyedd yr UE. Mae DAERA yn gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd ac yn delio ag unrhyw un sy'n torri'r ddeddfwriaeth yn unol â pholisi Gorfodaeth Grŵp Amgylchedd, Morol a Physgodfeydd (EMFG) DAERA.

## Ystyriaethau amgylcheddol

### Cyngor cadwraeth

Mae cynlluniau FMP yn destun rhwymedigaethau cyfreithiol ac amgylcheddol o dan ddeddfwriaeth fel y Rheoliadau Cynefinoedd, Strategaeth Forol y DU (neu Reoliadau

Strategaeth Forol y DU 2010[11]) a Datganiad Polisi Morol y DU, Deddf Amgylchedd 2021, Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a Deddf Forol (Gogledd Iwerddon) 2013.

Ochr yn ochr â'r gofynion hyn, mae cynlluniau FMP yn ceisio cefnogi ystod o bolisïau amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar wella iechyd ein moroedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, adfer bioamrywiaeth forol a mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd.

I gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau er mwyn gwarchod yr amgylchedd naturiol, gofynnodd DAERA, Defra a Llywodraeth Cymru am gyngor gan Gyrff Cadwraeth Natur Statudol, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys mewnbwn gan wasanaethau cadwraeth DAERA ei hun. Mae'r dystiolaeth a'r cyngor a roddwyd gan gyrff SNCB yn ategu nodau polisi a chamau gweithredu arfaethedig y FMP hwn. Er bod y FMP yn darparu trosolwg ar y cyngor hwn, rhoddir manylion y dulliau a'r data a ddefnyddiwyd gan y cyrff SNCB i adnabod risg yn yr adroddiad amgylcheddol.

Mae'r cyngor yn ystyried effaith y FMP pelagig hwn ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) yn nyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr ac ar ddisgrifyddion GES yn Strategaeth Forol y DU. Rhoddwyd cyngor hefyd ar yr effaith ar Nodweddion Morol Blaenoriaeth (nodweddion cyfunol) yn Neddf Bywyd Gwyllt ac Amgylchedd Naturiol (Gogledd Iwerddon) 2011 (WANE).

Mae'r cyngor yn seiliedig ar sgôr risg tri phwynt, o isel i gymedrol i uchel, er mwyn adnabod ble y mae'r effeithiau mwyaf yn debygol o ddigwydd. Mae'r sgôr wedi'i oleuo gan y gweithgareddau pysgota a lefel y pysgota.

Mae'r cyngor cadwraeth yn adnabod na ddisgwylir i bysgota pelagig canolddwr gael effaith ffisegol ar wely'r môr, a chan dybio bod y stoc belagig yn cael ei rheoli'n unol ag amcanion cadwraeth, mae'r cyngor yn canolbwyntio ar effeithiau y tu allan i'r stoc benwaig. Mae'r cyngor yn cynnwys effeithiau pysgodfeydd llai yn GI a Chymru sy'n defnyddio rhwydi drifft a rhwydi drysu gosod môr-waelod.

### Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG)

Mae'r cyngor cadwraeth a adolygir gan y JNCC yn adnabod y gallai FMP Pelagig Môr Iwerddon effeithio ar nodweddion dynodedig AMG mewn dwy ffordd yn bennaf:

(i) drwy sgîl-ddal nodweddion dynodedig ardaloedd AMG, a
(ii) drwy ddal rhywogaethau ysglyfaeth pwysig yn uniongyrchol (targedu) ac anuniongyrchol (sgîl-ddal) y mae rhywogaethau dynodedig yn dibynnu arnynt.

[11] Rheoliadau Strategaeth Forol 2010

Gall hyn effeithio ar nodweddion dynodedig oddi mewn a thu allan i ffiniau ardaloedd AMG, yn enwedig ar rywogaethau symudol. Y prif effeithiau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer nodweddion AMG felly yw:

- Risg gymedrol o sgîl-ddal rhywogaethau symudol (mamaliaid morol, adar a physgod) sy'n nodweddion dynodedig o ardaloedd AMG mewn treillrwydi pelagig.
- Risg gymedrol i rywogaethau dynodedig ardaloedd AMG o fod â llai o fwyd ysglyfaeth drwy'r bysgodfa sy'n targedu penwaig.

Tynnodd y cyngor sylw at risg glir o sgîl-ddal rhywogaethau morol sensitif mewn rhwydi statig, o gofio bod rhywogaethau morol allweddol yn dibynnu ar y mathau hyn o bysgod bwyd. Nodir bod angen mwy o ddata ar ba mor aml a faint o sgîl-ddal sy'n digwydd, a gellir yna penderfynu ar gamau lliniaru fel dulliau atal adar môr a theulu'r morfil. Mae peth pysgota am benwaig Môr Iwerddon yn digwydd gyda rhwydi drysu a byddai'r gofyniad data hwn felly'n berthnasol i hynny. Ystyrir yr effeithiau hyn ymhellach yn y nod polisi perthnasol.

Gofynnwyd i NRW ddarparu cyngor cadwraeth natur ar sail risg ar gyfer dyfroedd Cymru wrth baratoi FMP Dyfnforol Môr Iwerddon. Mae'r cyngor llawn ar gael yn yr Adroddiad Amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'r FMP hwn.

Wrth gyfuno'r holl wahanol fathau o gêr sy'n gysylltiedig â lefelau risg canolig neu uchel, mae NRW wedi adnabod y lefelau risg canlynol:
.

- Risg ganolig y tu mewn i ardaloedd AGA Gogledd Bae Ceredigion a Bae Lerpwl ar gyfer y fôr-hwyaden ddu a'r trochydd gyddfgoch, o aflonyddwch gweledol a sŵn cychod pysgota uwchben y dŵr.
- Risg ganolig y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o sgîl-ddal adar môr sy'n plymio.
- Risg uchel y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o sgîl-ddal eogiaid.
- Risg ganolig y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o sgîl-ddal gwangod a 'slywod pendoll.
- Risg ganolig y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o bysgota sy'n targedu penwaig, rhan o'r grŵp o gymunedau pysgod sy'n nodwedd o gynefin aberoedd Aber Afon Hafren.
- Risg uchel y tu mewn a thu allan i ardaloedd AMG o bysgota sy'n targedu penwaig gan effeithio ar fwyd ysglyfaeth i lamhidyddion harbwr.

Ni chafwyd cyngor gan NRW ar y risgiau posib i nodweddion AMG sensitif yng Nghymru o bysgodfeydd pelagig a dulliau pysgota yn nyfroedd Cymru yng nghyd-destun pa mor fregus yw'r nodweddion i'r lefel isel o bysgota sy'n gysylltiedig â chychod pysgota Cymru. Bydd unrhyw fesurau rheoli ar gyfer Cymru a allai gael eu hystyried ar ôl cyhoeddi'r FMP hwn hefyd yn ystyried y math cyfyngedig o bysgota,

faint, pa mor aml a pharhad y pysgota pelagig a wneir gan fflyd bysgota Cymru, wrth benderfynu risgiau'n ymwneud ag effeithiau pysgodfeydd.

### Disgrifyddion Strategaeth Forol y DU

O dan Reoliadau Strategaeth Forol 2010 (SI 2010/1627), rhaid i gyrff pysgodfeydd yn y DU weithredu i ennill neu gadw GES yn holl ddyfroedd y DU. Mae Strategaeth Forol y DU (UKMS) yn un o gonglfeini polisi morol y DU ac mae'r JFS yn fesur trawsbynciol fydd yn helpu i ddarparu GES ar gyfer pysgodfeydd masnachol. Ystyrir gwrthdaro o dan gyfres o ddisgrifyddion, yn ogystal ag ar nodweddion blaenoriaeth.

Roedd y cyngor cadwraeth yn tynnu sylw at risgiau pysgodfeydd i bum disgrifydd yn Strategaeth Forol y DU (D1 Bioamrywiaeth, D3 Pysgod a Physgod Cregyn Masnachol, D4 Gweoedd Bwyd, D6 Cyfanrwydd Gwely'r Môr a D10 Sbwriel Morol).

Ar gyfer dyfroedd GI

- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer bioamrywiaeth fiolegol teulu'r morfil, morloi ac adar, oherwydd effeithiau gweithgareddau pysgota pelagig. Awgrymir bod angen ystyried yr effaith ar rywogaethau ysglyfaeth ymhellach.
- Mae risg gymedrol i sbwriel morol. Mae angen amcangyfrifon mwy cadarn.

Ar gyfer dyfroedd Lloegr

- Mae risg gymedrol i deulu'r morfil D1 a D4, morloi D1 a D4, adar môr D4, o gael eu sgîl-ddal mewn treillrwydi pelagig, rhwydi cylch, llawesrwydi a rhwydi drifft pelagig.
- Mae risg gymedrol i deulu'r morfil D1 a D4, morloi D1 a D4, adar môr D1 a D4, o bysgota sy'n targedu penwaig, sy'n rhywogaeth ysglyfaeth bwysig.
- Mae risg gymedrol i sbwriel morol D10 o dreillrwydi pelagig a rhwydi drifft oherwydd gêr pysgota wedi'i adael, ei golli neu ei daflu.

Ar gyfer dyfroedd Cymru

- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer teulu'r morfil, morloi, adar môr (D1 a D4) o sgîl-ddal gan dreillrwydi pelagig;
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer llamhidyddion harbwr (D1 a D4) a risg gymedrol i ennill GES ar gyfer pob aelod arall o deulu'r morfil (D1 a D4) drwy sgîl-ddal mewn rhwydi statig a drifft;
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer morloi ac adar môr (D1 a D4) o sgîl-ddal mewn rhwydi gosod a rhwydi drifft;
- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer pysgod (D1 a D4) oherwydd pysgota targed a sgîl-ddal mewn treillrwydi pelagig, rhwydi statig a drifft;
- Mae risg uchel i ennill GES ar gyfer llamhidyddion harbwr (D1 a D4) o bysgota sy'n targedu penwaig, sy'n rhywogaeth ysglyfaeth bwysig mewn treillrwydi pelagig, rhwydi statig a drifft; a

DRAFT

- Mae risg gymedrol i ennill GES ar gyfer sbwriel morol (D10) o dreillrwydi pelagig, rhwydi statig a drifft.

## Nodweddion Blaenoriaeth

Ystyriwyd nodweddion blaenoriaeth, sy'n derm cyfunol am nodweddion a restrir yn rhestri cynefinoedd a rhywogaethau WANE[12]. Noda'r cyngor:

Ar gyfer nodweddion cynefin blaenoriaeth:

- Risg fach iawn o dreillrwydi pelagig (cael eu sgrinio allan).
- Risg isel o rwydi drifft a rhwydi drysu gosod, a ddefnyddir am gyfnod ac mewn ardal gyfyngedig.

Ar gyfer rhywogaethau:

- Risg isel i rywogaethau symudedd isel / cyfyngedig o sgîl-ddal a llai o fwyd ysglyfaeth.
- Risg gymedrol i nodweddion blaenoriaeth yn y rhestr rywogaethau (mamaliaid morol, adar môr a physgod) o sgîl-ddal a cholli pysgod bwyd.
- Mae rhwydi drifft a drysu'n cyflwyno risg isel i nodweddion cynefin blaenoriaeth o gofio bod pysgodfeydd penwaig Cymru a Mourne yn defnyddio'r gêr hyn am gyfnodau ac mewn ardaloedd cyfyngedig (cael eu sgrinio allan).
- Risg isel i rywogaethau symudedd isel / cyfyngedig o sgîl-ddal a llai o fwyd ysglyfaeth o ddefnyddio treillrwydi pelagig, rhwydi drifft a rhwydi drysu.
- Risg gymedrol bosib o bysgodfa belagig Môr Iwerddon (treillrwydi pelagig, rhwydi drifft a rhwydi drysu) i amrywiol nodweddion morol blaenoriaeth yn y categori Rhywogaethau (yn benodol rhywogaethau symudol, mamaliaid morol, adar môr a physgod), yn bennaf o sgîl-ddal uniongyrchol a cholli bwyd ysglyfaeth.

Mae'r cyngor yn gwneud argymhellion i gasglu mwy o ddata wedi'i dargedu ac ystyried dulliau gwell seiliedig ar ecosystem o reoli'r stoc, gan gynnwys sut y mae creaduriaid ysglyfaethus dibynnol yn cael eu hasesu a'u rheoli, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a bod angen dull integredig a chydlynus o weithredu. Ystyrir y materion hyn ymhellach yn yr adran nodau polisi.

## Newid hinsawdd

Fel gyda sectorau eraill, mae'r sector pysgodfeydd yn wynebu nifer o broblemau newid hinsawdd ac mae angen gweithredu cyfunol i ymateb a chyd-ddatblygu atebion iddynt. Mae DAERA yn cydnabod y gall pysgota fod yn ffynhonnell brotein carbon isel a bydd

[12] Deddf Bywyd Gwyllt ac Amgylchedd Naturiol (Gogledd Iwerddon) 2011

yn cefnogi'r diwydiant i leihau allyriadau a chreu system fwy cynaliadwy gan sicrhau bwyd maethlon o ansawdd uchel a chynnal a gwella diogelwch bwyd.

Mae effeithiau newid hinsawdd i'w gweld yn barod yn yr amgylchedd morol. Rydyn ni eisoes yn gweld mwy o rywogaethau dŵr cynnes yn nyfroedd y DU a llai o rai rhywogaethau dŵr oer, a disgwylir i'r ddwy duedd yma barhau yn y dyfodol. Ar gyfer rhywogaethau fel penwaig, mae'n debyg y bydd addasrwydd cynefin y pysgod hyn yn newid gan arwain at amodau llai ffafriol i'r rhywogaethau hyn yn nyfroedd y DU yn y tymor hirach.

Bydd gan y newidiadau disgwyliedig yn nosbarthiad rhywogaethau ganlyniadau i bysgodfeydd masnachol gan effeithio ar ymddygiad pysgota, cwotâu pysgota, a bydd angen mesurau rheoli i addasu. Mae'r dystiolaeth wedi cynyddu'n sylweddol yn y degawd diwethaf gyda llawer mwy o ffocws ar effeithiau, addasu a lliniaru yn erbyn newid hinsawdd, gan bolisi a diwydiant. Fodd bynnag, mae lefel o ansicrwydd o hyd o ran beth ddeil y dyfodol ac mae'n anodd ar hyn o bryd creu rhagolygon pendant.

Mae gan awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU wahanol dargedau ar gyfer newid hinsawdd ac yn datblygu cynlluniau i gefnogi'r ymdrechion tuag at sero net. I gefnogi gyda chyflawni'r amcan newid hinsawdd yn y Ddeddf, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i wneud penderfyniadau rheoli a chymryd safiadau negodi ar sail tystiolaeth, gan osod cyfyngiadau pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael er mwyn cefnogi gwydnwch parhaus y stociau pysgod a'r fflydoedd pysgota sy'n dibynnu arnynt. Wrth i fwy o ymchwil a thystiolaeth ar gyfer newid hinsawdd ddod ar gael, bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU yn gweithio gyda'r diwydiant pysgota i'w helpu i addasu i effeithiau newid hinsawdd ar rywogaethau masnachol bwysig.

Yn ogystal ag effeithiau newid hinsawdd ar bysgodfeydd, a bod angen addasu i'r newidiadau hyn, mae hefyd yn bwysig ystyried lliniaru yn erbyn newid hinsawdd a thargedau sero net ar gyfer pysgota.

Mae Deddf Newid Hinsawdd 2008 (diwygiwyd yn 2019) yn gosod targed cyfreithiol-ymrwymol i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net (GHGE) erbyn 2050 ar draws y DU, gydag uchelgais i sicrhau lleihad o 78% erbyn 2035. I gefnogi'r targedau hyn, rhaid i bob sector gan gynnwys sector bwyd môr y DU ddatblygu cynlluniau i leihau eu GHGE a defnyddio ffynonellau ynni glân amgen.

Mae'r FMP hwn hefyd yn cyd-fynd â rhwymedigaethau Deddf Newid Hinsawdd (Gogledd Iwerddon) 2022. Un o ofynion y Ddeddf yw bod DAERA yn datblygu a chyhoeddi Cynllun Gweithredu Hinsawdd Gogledd Iwerddon a Chynllun Sector Pysgodfeydd i gynorthwyo i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050. Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn yn cyfrannu at ymateb y sector drwy hyrwyddo arferion pysgota carbon isel, defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon a chryfhau gwydnwch i effeithiau hinsawdd.

Mae unrhyw newid mewn plancton yn y dyfodol yn debygol iawn o effeithio ar gynhyrchedd a recriwtio. Mae tystiolaeth hefyd o newid i gyfundrefn y corbenwaig, sy’n dangos newid eang yn eu dosbarthiad sy’n ddibynnol ar dymheredd.

Mae canfyddiadau WK Irish (Gweithgor Meincnodi Môr Iwerddon) yn nodi effeithiau newid hinsawdd posib yn y dyfodol. Mae hefyd angen ystyried addasu, os gallai newid hinsawdd effeithio ar stociau, ymddygiad tymhorol / patrymau mudo, neu ar gyflwr dyfroedd silio (e.e. newid mewn patrymau erydu o ganlyniad i dywydd stormus a lefel y môr yn codi).

## Nodau Polisi

Wrth ddatblygu polisïau ar gyfer y FMP hwn, mae’r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi ystyried polisïau cysylltiedig, cytundebau rhyngwladol, cyngor cadwraeth a datblygiadau sydd ar waith. Maen nhw wedi adnabod tystiolaeth a mesurau ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi gweledigaeth y FMP hwn a’i amcanion. Mae’r rhan fwyaf o gamau gweithredu’r FMP hwn yn cysylltu’n uniongyrchol i’r amcanion pysgodfeydd a ddisgrifir isod. Er bod cynlluniau FMP yn helpu i gyflawni’r amcanion hyn, mae dulliau polisi eraill hefyd ar gael a datblygwyd y FMP hwn yng nghyd-destun Cynlluniau Morol ehangach ac ar ôl ystyried yr amcanion a’r egwyddorion a amlinellir yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE / DU.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen mwy o waith datblygu polisi cyn cytuno ar weithredu newydd, a allai gynnwys casglu mwy o dystiolaeth neu ymgynghori cyhoeddus, ynghyd â chwblhau asesiadau effaith priodol. Bydd hyn yn rhan o gam gweithredu’r FMP. Dylid hefyd nodi y bydd cyfleoedd pysgota cyffredinol yn dal i gael eu penderfynu drwy negodi rhyngwladol blynyddol. Gallai’r stoc hefyd fod yn destun gwahanol fesurau rheoli mewn rhannau gwahanol o’r môr gan lywodraethau unigol.

Mae cyfleoedd ar gyfer pysgota penwaig Môr Iwerddon sy’n berthnasol i’r FMP hwn wedi bod uwchlaw cyngor ICES yn y gorffennol. Mae’r camau gweithredu yn y FMP hwn yn adlewyrchu hyn ac yn canolbwyntio ar adfer y stoc i fod uwchlaw lefelau MSY, gan barhau i ddefnyddio’r dull rheoli presennol a thrwy adnabod a chyflwyno gwelliannau rheoli lle bo angen i gwrdd â’r amcanion ar gyfer pysgodfeydd.

### Nod Polisi 1: Cynaeafu stociau penwaig Môr Iwerddon yn gynaliadwy gan adfer a chynnal y biomas ar lefel uwchlaw’r hyn a all gynhyrchu MSY

**Rhesymeg**
Prif nod cynlluniau FMP yw cyflwyno polisïau a ddyluniwyd i adfer neu gynnal stociau pysgod ar lefelau cynaliadwy neu gyfrannu at eu hadfer neu gynnal ar lefelau cynaliadwy. Mae hyn yn unol ag adran 6(3)(a) Deddf 2020. Fel rhan o hyn, rôl rheolwyr pysgodfeydd yw helpu i sicrhau bod stociau’n cael eu cynaeafu’n gynaliadwy er mwyn diogelu hyfywedd hirdymor y stociau a’r pysgodfeydd sy’n eu pysgota.

Bydd ein dealltwriaeth o statws stoc yn newid dros amser, wrth i'r dystiolaeth a'r asesiadau gael eu datblygu a'u diwygio. Gallai hyn gynnwys sut y mae'r cyngor gwyddonol yn addas i gwrdd â phryderon newydd, fel cynnwys gofynion ar gyfer rheoli'r ecosystem.

Ein dull yw pysgota'r stoc yn gynaliadwy ac mewn ffordd sy'n helpu i ail-adeiladu neu gynnal y stoc uwchlaw'r lefel all gynhyrchu MSY yn y tymor hir. Pan gynhyrchwyd y FMP hwn, roedd pryderon am yr asesiad ac am statws y stoc penwaig. Dylai unrhyw gamau gweithredu gefnogi pysgota cynaliadwy sydd, yn unol â'r Ddeddf, yn amgylcheddol gynaliadwy yn y tymor hir ac yn cael ei reoli i gyfrannu at fudd economaidd, cymdeithasol a chyflogaeth, a chyflenwadau bwyd. Mae'r dull hwn yn cael ei ddilyn wrth benderfynu dalfeydd TAC.

**Camau gweithredu i gyflawni'r nod polisi hwn**

Cam gweithredu 1.1 Parhau i ddilyn dull o benderfynu TAC sy'n gynaliadwy, wedi'i oleuo gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael ac sy'n unol â dull MSY.

Cam gweithredu 1.2 Parhau i weithio gyda phartneriaid yn yr UE drwy negodi'n rhyngwladol er mwyn parhau i gynaeafu'r stoc yn gynaliadwy a chael mynediad priodol.

Cam gweithredu 1.3 Ystyried gweithredu mesurau rheoli pysgodfeydd, gan gynnwys gwaharddiad ar ddyfroedd silio, a datblygu technoleg gêr briodol.

**Amcanion** perthnasol y **Ddeddf Pysgodfeydd**

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan cynaliadwyedd
- yr amcan rhagofalus
- amcanion gwyddonol
- yr amcan ecosystem

## Nod Polisi 2: Defnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael i helpu i wneud penderfyniadau rheoli wrth benderfynu cyfleoedd pysgota cynaliadwy.

**Rhesymeg**

Aeth yr asesiad ar gyfer penwaig Môr Iwerddon drwy broses feincnodi ICES yn 2012, a diweddarwyd y model yn 2017. Mae diwygiadau i'r asesiad yn dilyn hynny, o ganlyniad i gywiriadau ôl-gyhoeddi, wedi arwain at newid barn am y stoc ac ail-gyflwyno'r cyngor ar ganol blwyddyn yn 2024 a 2025. Er bod cwestiynau am hyder yn asesiad presennol ICES o ganlyniad i hynny, mae digon o dystiolaeth yn parhau fel bo'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gallu asesu MSY.

DRAFT

Mae cyngor ICES, yn gynyddol, wedi tynnu sylw at y lefel anfesuradwy o gymysgu â phenwaig aeddfed o Fôr Iwerddon, y Môr Celtaidd a stociau eraill. Mae angen gwaith gwyddonol sylweddol i ddeall natur y cymysgu yng ngogledd Môr Iwerddon ymhellach, a'r goblygiadau i reoli stociau cyfagos. Mae casglu data mwy cynhwysfawr ar gyfer pysgodfa benwaig Môr Iwerddon hefyd yn greiddiol i gefnogi cyfres amser ddibynadwy, i sicrhau y rheolir y stoc yn gadarn a chynaliadwy. Mae ffocws y camau gweithredu isod ar adeiladu ar y dull casglu data a gwyddonol presennol. Bydd hyn yn sicrhau bod gwelliannau tymor hirach yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Lle bo'n briodol, dylai'r awdurdodau polisi pysgodfeydd weithio gyda'i gilydd i gasglu a rhannu data gwyddonol o'r fath.

**Camau gweithredu i gyflawni'r nod polisi hwn**

Cam gweithredu 2.1 Sicrhau bod y cyngor gwyddonol gorau ar gael i wneud penderfyniadau rheoli drwy gyfrannu at a chyfranogi yn y broses asesu stoc ryngwladol, yn benodol drwy ddarparu data o ansawdd uchel.

Cam gweithredu 2.2 Cyflwyno proses feincnodi ar gyfer asesu penwaig Môr Iwerddon fel blaenoriaeth i'r DU.

Cam gweithredu 2.3 Gwella'r dystiolaeth ar gyfer stociau penwaig gan gynnwys cefnogi gwaith i benderfynu ydy a sut y mae pysgota stociau pysgod y tu allan i ardal y FMP yn effeithio ar stoc penwaig Môr Iwerddon yn ardal y FMP, ac fel arall.

Cam gweithredu 2.4 Ystyried gwerthuso'r protocolau casglu data presennol i weld sut y gellir gwella darpariaeth a chysondeb y data, ac adnabod unrhyw fylchau gwybodaeth a data pwysig. Ystyried opsiynau pellach ar gyfer asesu stoc(iau) neu statws eu pysgota.

Cam gweithredu 2.5 sefydlu partneriaethau rhwng rhanddeiliaid a sefydliadau Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) i sicrhau bod:

- ymchwil yn cael ei thargedu at ateb cwestiynau rheoli,
- ymchwil yn cael ei hadolygu gan gymhariaid,
- y diwydiant yn cael ei gynnwys ac yr ymgynghorir â'r diwydiant,
- data'n cael ei ddarparu i helpu i reoli pysgodfeydd ar sail tystiolaeth, a
- bod data gan bysgodfeydd ac annibynnol yn cael ei ddefnyddio'n llawn.

Cam gweithredu 2.6 Ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau cynrychiadol (gan gynnwys NIFPO ac ANIFPO) ar sut orau i ddefnyddio'r dystiolaeth wyddonol a gyhoeddir gan ICES. Ymgynghori'n uniongyrchol â physgotwyr ar ddata pysgota er mwyn asesu stociau a rheoli pysgodfeydd yn well a mwy cywir.

DRAFT

**Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd**
Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan cynaliadwyedd
- yr amcan tystiolaeth wyddonol

## Nod Polisi 3: Cwblhau gwaith rheoli cynaliadwy ehangach drwy gymryd camau i leihau effaith pysgodfeydd penwaig Môr Iwerddon ar yr ecosystem forol.

**Rhesymeg**
Mae pob math o bysgota'n cael effaith ar yr amgylchedd morol ac ecosystemau morol i wahanol raddau, p'un ai drwy godi rhywogaethau pysgod targed o'r môr, sgîl-ddal pysgod di-darged neu rywogaethau morol eraill yn ddamweiniol, neu wrthdaro â gwely'r môr. Mae deall a lleihau'r effeithiau hyn, lle bo'n bosib, yn rhan bwysig o ddarparu dull seiliedig ar ecosystem o weithredu.

I liniaru effaith pysgodfeydd penwaig Môr Iwerddon ar yr ecosystem forol, mae'n bwysig lleihau sgîl-ddal damweiniol. Rhaid cofnodi pob dalfa a rhaid dal llai o rywogaethau sensitif yn ddamweiniol neu, lle bo'n bosib, osgoi hynny'n llwyr. Byddai gwella monitro ac adrodd yn gwella'r data ar sgîl-ddal. Gallai gweithredu cynllun cofnodi dalfeydd ar draws cychod mwy hwyluso mesurau monitro a lleihau sgîl-ddal. Mae arsylwyr eisoes yn cofnodi sgîl-ddal yn y bysgodfa benwaig.

Dylai'r awdurdodau polisi pysgodfeydd ehangu'r gwaith o fonitro ac adrodd sgîl-ddal ar draws fflyd penwaig Môr Iwerddon y DU i gynorthwyo i weithredu Rhaglen Lliniaru Sgîl-ddal y DU.

Dylid rheoli gweithgareddau pysgota'n defnyddio dull seiliedig ar ecosystem i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol ar ecosystemau morol yn cael eu hosgoi neu, lle na ellir osgoi effaith niweidiol, yn cael ei lleihau a'i lliniaru lle bo'n briodol.

Mae cynefinoedd silio'n agored i gael eu haflonyddu a dylid cymryd mesurau i sicrhau nad yw gweithgareddau niweidiol yn effeithio arnynt. Mae gêr pysgota wedi'i adael, ar goll neu sy'n cael ei daflu'n achosi rhywogaethau sensitif i ymgordeddu yn y gêr a physgota 'rhithiol'; felly mae llai o sbwriel morol i'w groesawu.

**Camau gweithredu tymor byr i gyflawni'r nod polisi hwn**
Cam gweithredu 3.1 Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd yn rhoi cwota ychwanegol yn ôl gofynion y Ddeddf, gan roi sylw dyledus i fod angen cymhellion i bysgota mewn ffordd sy'n cael llai o effaith.

Cam gweithredu 3.2 Parhau i weithredu mesurau rheoli pysgodfeydd ar gyfer ardaloedd AMG ac ystyried a oes angen camau gweithredu newydd. Dylai mesurau gyd-fynd â'r amcanion cadwraeth.

Cam gweithredu 3.3 Parhau i weithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill ar ystod o fesurau rheoli fel:

- Gwarchod ardaloedd silio a meithrinfa'r stociau,
- Monitro ac adolygu pysgodfa benwaig Môr Iwerddon i wella ei chynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd, a
- Cyflwyno REM i rannau allweddol o fflyd bysgota'r DU i wella data a monitro dalfeydd a gwrthdrawiadau â rhywogaethau morol sensitif.

Cam gweithredu 3.4 Cynorthwyo i gasglu data o dan Raglen Lliniaru Sgîl-Ddal y DU i wella ein dealltwriaeth o'r risg a pha mor aml y mae pysgota'n dod ar draws rhywogaethau sensitif; pa mor effeithiol yw'r mesurau lliniaru ac osgoi presennol; a gweithredu gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu adar môr a mamaliaid morol at ffurflenni casglu data arsylwyr, gan gefnogi'r Strategaeth Cadwraeth Adar Môr a'i Chynllun Gweithredu.

**Camau gweithredu tymor hir i gyflawni'r nod polisi hwn**

Cam gweithredu 3.5 Ystyried sut i warchod a chefnogi adferiad cynefinoedd sydd wedi eu hadnabod fel rhai pwysig i benwaig o'r pwysau sy'n cyflwyno risg iddynt, gan gynnwys arferion pysgota penodol a gweithgareddau morol eraill.

Cam gweithredu 3.6 Lle bo'n bosib, parhau i gefnogi ymchwil er mwyn deall beth sy'n aflonyddu ac effeithio ar gynefinoedd benthig yn well. Er enghraifft sbwriel gwely'r môr, ar yr wyneb ac ar draethau.

Cam gweithredu 3.7 Cefnogi ac annog yr arferion da presennol yn y diwydiant pysgota o ran trin a thrafod rhywogaethau morol sensitif a / neu fregus a'u dychwelyd i'r môr heb gael niwed.

Cam gweithredu 3.8 Cefnogi ymchwil sydd ar y gweill i gefnogi ailddefnyddio ac ail-bwrpasu gêr pysgota diwedd bywyd yn ôl i'r diwydiant pysgota.

Cam gweithredu 3.9 Dylai'r awdurdodau polisi pysgodfeydd barhau i ymgysylltu ag Adran Amgylchedd, Bwyd ac Amaeth (DEFA) Ynys Manaw ar ddyfroedd silio pwysig yn nyfroedd tiriogaethol Ynys Manaw i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu gwarchod.

**Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd**

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan cynaliadwyedd
- yr amcan ecosystem
- yr amcan sgîl-ddal

## Nod Polisi 4: Cefnogi'r diwydiant pysgota i ddarparu budd economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau gwledig ac arfordirol.

**Rhesymeg**

Fel y mae'r JFS a'r Ddeddf yn ei amlinellu, mae gan awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU uchelgais i gefnogi diwydiant pysgota modern, gwydn, amgylcheddol gynaliadwy a chyfrifol. Mae hyn yn cynnwys rheoli pysgodfeydd yn gynaliadwy drwy gydbwyso ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, a rheoli capasiti fflydoedd fel eu bod yn economaidd hyfyw, ond heb orbysgota stociau morol. Noda'r JFS y gellir ehangu sgôp cynllun FMP, fel y bo'n briodol, i ystyried materion rheoli pysgodfeydd ehangach yn ymwneud â phryderon amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Mae pysgodfeydd penwaig Môr Iwerddon yn gyfle i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, yn bennaf i'w fwyta gan bobl, a thrwy hynny roi'r elw economaidd gorau i'r fflydoedd pysgota a'r busnesau ar y lan.

**Camau gweithredu tymor byr ac ar waith i gyflawni'r nod polisi hwn**

Cam gweithredu 4.1 Parhau i ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol fel rhan o negodi rhyngwladol a phenderfynu cyfleoedd pysgota.

Cam gweithredu 4.2 Parhau i gasglu tystiolaeth ar agweddau economaidd y bysgodfa i sicrhau bod penderfyniadau rheoli'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Cam gweithredu 4.3 Annog a chefnogi'r sector i arloesi a thyfu lle bo'n bosib.

Cam gweithredu 4.4 Creu cymhellion i fabwysiadu arferion cynaliadwy drwy roi cwota ychwanegol os yw'r dystiolaeth o blaid ei ddefnyddio'n gynaliadwy.

**Camau gweithredu tymor hir i gyflawni'r nod polisi hwn**

Cam gweithredu 4.5 Monitro ac asesu pysgodfeydd penwaig Môr Iwerddon er mwyn deall y gwerth cymdeithasol ac economaidd i'r cymunedau arfordirol yn ardal y FMP yn well, lle bo'n briodol.

Cam gweithredu 4.6 Ystyried cyfleoedd eraill, lle bo'n bosib, a allai gefnogi pysgodfeydd pelagig i ymateb i bwysau allanol a defnyddiau morol eraill.

**Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd**

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan mynediad cyfartal
- yr amcan budd cenedlaethol
- yr amcan cynaliadwyedd

DRAFT

## Nod Polisi 5: Lleihau effaith gweithgareddau pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i newid hinsawdd

**Rhesymeg**

Yn unol ag amcan newid hinsawdd y Ddeddf a'r dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 a Deddf Newid Hinsawdd (Gogledd Iwerddon) 2022, nod y FMP hwn yw lleihau neu osgoi effeithiau niweidiol pysgota ar yr hinsawdd a chefnogi'r diwydiant i addasu i newidiadau amgylcheddol.

Mae ein dealltwriaeth o effaith pysgota ar yr hinsawdd a sut fydd newid hinsawdd yn effeithio ar stociau pysgod, ecosystemau a chymunedau arfordirol, yn dal i esblygu. Mae angen tystiolaeth well arnom ar:

- Sut i leihau allyriadau carbon o bysgota mewn ffordd gynaliadwy, a
- Effeithiau tebygol newid hinsawdd ar ddosbarthiad a chyfansoddiad maint stoc, dyfroedd silio, cynhyrchu plancton, gweoedd bwyd a storfeydd carbon morol.

Gallai dosbarthiad a chyfansoddiad maint stoc benwaig Môr Iwerddon, a stociau penwaig cyfagos, newid wrth i'r amodau amgylcheddol newid wrth i'r hinsawdd leol newid, ond nid ydym yn deall i ba raddau na'r effeithiau llawn eto.

Gwyddom hefyd fod angen i gychod pysgota leihau allyriadau tanwydd yn y dyfodol ac mae ymchwil a datblygu a chynlluniau peilot ar waith mewn mannau eraill.

Wrth i ni symud tuag at sero net, gall pysgota ddarparu dull protein uchel a charbon isel o gynhyrchu bwyd a chyfrannu at ddiogelwch bwyd. Er bod allyriadau o gychod pysgota'n rhan fach o allyriadau GHG ar lefel y DU, mae allyriadau pysgodfeydd pelagig y DU am bob cilogram o gynnyrch sy'n cael ei lanio yn llawer is na physgodfeydd eraill.

Nid yw'r camau gweithredu isod yn unigryw i bysgodfa benwaig Môr Iwerddon. Fodd bynnag, wrth i'r dystiolaeth gynyddu, byddwn yn deall effeithiau penodol newid hinsawdd ar benwaig Môr Iwerddon yn well a faint o newid fydd ei angen i gefnogi cychod sy'n pysgota am benwaig i leihau eu hallyriadau. Drwy wneud hyn, gallwn hefyd addasu i newidiadau yn stoc benwaig Môr Iwerddon a stociau penwaig cyfagos, ac i amodau pysgota'n gyffredinol. Mae'r camau gweithredu hyn yn debygol o newid a chael eu diwygio dros amser.

Bydd lleihau allyriadau yn y sector yn digwydd drwy ddatblygu mesurau mewn cydweithrediad â'r diwydiant. Yng Ngogledd Iwerddon, y polisi i ddechrau fydd buddsoddi yn yr ymchwil a'r datblygu sy'n angenrheidiol i greu'r atebion arloesol fydd eu hangen i leihau allyriadau'r fflyd bysgota, a lleihau unrhyw effeithiau niweidiol gan bysgota ar newid hinsawdd.

Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cefnogi unrhyw fesurau sydd ar waith ond heb gyflwyno neu ddarparu mesurau lliniaru ychwanegol yn uniongyrchol.

DRAFT

**Camau gweithredu tymor byr i gyflawni'r nod polisi hwn**

Cam gweithredu 5.1 Sicrhau bod penwaig Môr Iwerddon yn cael ei ystyried, fel bo'n briodol, wrth wneud gwaith ymchwil pellach i effeithiau tebygol newid hinsawdd ar bysgodfeydd penwaig, ardaloedd silio, ffynonellau bwyd a'r cysylltiad rhwng y rhain â'r ecosystem ehangach.

Cam gweithredu 5.2 Cydweithredu ar draws llywodraeth, diwydiant a'r sectorau academaidd ar fesurau i leihau effaith pysgodfeydd penwaig Môr Iwerddon ar yr amgylchedd, gan gynnwys lleihau allyriadau CO2 a defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon a thanwyddau amgen.

Cam gweithredu 5.3 Parhau i gasglu a datblygu'r dystiolaeth o effaith pysgodfeydd penwaig Môr Iwerddon ar yr amgylchedd morol (gan gynnwys allyriadau CO2) drwy astudiaethau cydweithredol.

**Camau gweithredu tymor hir i gyflawni'r nod polisi hwn**

Cam gweithredu 5.4 Gwerthuso'r dull mwyaf priodol o integreiddio gwybodaeth am effeithiau newid hinsawdd ar stociau a physgodfeydd y FMP mewn mesurau rheoli pysgodfeydd, gan gynnwys asesiadau stoc a chyngor ar gyfleoedd pysgota.

Cam gweithredu 5.5 Adeiladu ar y gwaith a wnaed gan WKIrish ar effeithiau newid hinsawdd ar swplancton a'r mynegai swplancton mawr, sydd wedi'i adnabod fel ffactor bwysig i gefnogi stociau penwaig.

Cam gweithredu 5.6 Gwerthuso a chefnogi cyflwyno technoleg ac arferion newydd i ddatgarboneiddio'r fflyd a chryfhau ei gwydnwch, yn unol â'r cyllidebau carbon a sefydlwyd o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd.

**Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd**

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan cynaliadwyedd
- yr amcan newid hinsawdd

## Gweithredu, monitro ac adolygu

### Gweithredu

Mae'r FMP hwn yn cyflwyno gweledigaeth a nodau ar gyfer y bysgodfa hon, ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli sydd eu hangen i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r FMP hwn yn cynnig camau gweithredu a mesurau newydd ond nid yw'n eu gweithredu. Bydd gan y FMP gam gweithredu a bydd opsiynau darparu'n cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu ymhellach bryd hynny.

Gall yr opsiynau darparu gynnwys mesurau gwirfoddol, amodau trwydded, is-ddeddfau cenedlaethol a rhanbarthol, a rheoliadau statudol. Bydd y cam gweithredu



DRAFT

hwn yn adeiladu ar y dystiolaeth bresennol, unrhyw gamau wedi eu gweithredu wrth ddatblygu'r FMP a'r opsiynau a drafodwyd gyda rhanddeiliaid.

## Dangosyddion i fonitro effeithiolrwydd y cynllun

Dyma'r fersiwn gyntaf o'r FMP hwn ac mae'n cyflwyno'r camau cyntaf a'r weledigaeth fwy hirdymor sydd eu hangen i reoli'r bysgodfa hon yn gynaliadwy. Bydd y cynlluniau hyn yn cymryd amser i'w datblygu a'u gweithredu. Eu diben yw caniatáu dull addasol, gydag adolygiadau a diwygiadau rheolaidd wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg. Bydd y cynlluniau'n helpu i gydweithredu â'r sector pysgota a buddiannau ehangach i sicrhau y rheolir y bysgodfa hon yn gynaliadwy.

Y dangosydd allweddol fydd iechyd y stoc, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r cylch o bennu dalfeydd TAC. Mae asesiadau stoc ICES yn asesu sut y mae poblogaethau pysgod wedi newid dros amser ac effaith pwysau pysgota ar stociau. Bydd perfformiad yn erbyn y dangosyddion biolegol allweddol yn cael ei ystyried, h.y. yn erbyn pwyntiau cyfeiriol ar gyfer MSY, pwysau pysgota a biomas stoc silio fel dangosyddion o bysgota cynaliadwy, neu ddefnydd o gyfleoedd pysgota yn erbyn dalfeydd TAC a gytunwyd.

Datblygir dangosyddion gweithredu penodol eraill wrth weithredu'r cynlluniau.  Bydd mesurau monitro priodol yn cael eu cyflwyno wrth weithredu'r rhain.

## Adolygu

Fel y noda'r Ddeddf, rhaid adolygu'r FMP hwn pan fo'n briodol a phob 6 mlynedd o leiaf. Bydd yr adolygiad ffurfiol hwn yn asesu sut y perfformiodd y FMP o ran cwrdd ag amcanion y Ddeddf. Bydd canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn cyfrannu at ddatblygu fersiynau pellach o'r FMP. Gellir adolygu'n gynt, er enghraifft os yw dangosydd yn adnabod bod angen adolygu. Yr awdurdodau polisi pysgodfeydd sy'n penderfynu a wneir adolygiad cynt.

Hefyd, bydd yr adroddiad fydd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi pob 3 blynedd yn unol â'r JFS o dan adran 11 y Ddeddf hefyd yn disgrifio i ba raddau y mae polisïau'r FMP hwn wedi cael eu gweithredu ac wedi effeithio ar lefelau'r stociau perthnasol yn y FMP.

DRAFT